



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 163 (Cy. 31)

2020 No. 163 (W. 31)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU A LLOEGR**

**SOCIAL CARE, ENGLAND
AND WALES**

Rheoliadau Asiantaethau
Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio)
2020

The Adoption Agencies (Wales)
(Amendment) Regulations 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ("y Prif Reoliadau") sy'n gwneud darpariaeth ynghylch arfer gan asiantaethau mabwysiadu (awdurdodau lleol a chymdeithasau mabwysiadu cofrestredig) eu swyddogaethau mewn perthynas â mabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliadau newydd 19A ac 20A yn y Prif Reoliadau. Mae rheoliad newydd 19A yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu atgyfeirio i Gofrestr Fabwysiadu Cymru (o fewn yr amserlen ofynnol) fanylion plant y mae'r asiantaeth fabwysiadu wedi ei hawdurdodi i'w lleoli ar gyfer eu mabwysiadu. Mae rheoliad newydd 20A yn rhestru, at ddibenion y rheoliad hwnnw, y personau hynny sydd wedi eu hawdurdodi i fod yn dyst wrth i rieni a gwarcheidwaid gwblhau y tu allan i Gymru a Lloegr ffurflenni cydsynio i leoli ar gyfer mabwysiadu ac, yn ôl y digwydd, i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol.

Mae mân ddiwygiad hefyd wedi ei wneud i reoliad 20 o'r Prif Reoliadau i egluro nad oes rhaid i asiantaeth fabwysiadu ofyn am benodiad swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog o CAF/CASS i gael cydsyniad gan riant neu warcheidwad i leoli neu fabwysiadu plentyn yn ei ofal ond pan fo'r rhiant neu'r gwarcheidwad yn preswyllo yng Nghymru a Lloegr.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Adoption Agencies (Wales) Regulations 2005 ("the Principal Regulations") which make provision relating to the exercise by adoption agencies (local authorities and registered adoption societies) of their functions in relation to adoption under the Adoption and Children Act 2002.

These Regulations insert new regulations 19A and 20A into the Principal Regulations. New regulation 19A requires adoption agencies to refer to the Adoption Register for Wales (within the required timescale) details of children whom the adoption agency has been authorised to place for adoption. New regulation 20A lists, for the purposes of that regulation, those persons authorised to witness the execution outside England and Wales of forms of consent to placement for adoption by parents and guardians and, as the case may be, to the making of a future adoption order.

A minor amendment is also made to regulation 20 of the Principal Regulations to clarify that an adoption agency must request the appointment of a Welsh family proceedings officer or an officer of CAF/CASS to obtain consent from a parent or guardian to the placement or adoption of a child in their care only where the parent or guardian resides in England and Wales.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi Rhan 4 newydd yn lle'r un bresennol (rheoliadau 21 i 30E) yn y Prif Reoliadau er mwyn darparu ar gyfer proses gymeradwyo dau gam ar gyfer darpar fabwysiadwyr (y broses cyn asesu – cam 1 a'r penderfyniad asesu – cam 2). Mae rheoliadau 21 i 27 newydd (cam 1) yn gymwys pan fo person wedi hysbysu asiantaeth fabwysiadu ei fod am fabwysiadu plentyn a bo'r asiantaeth wedi hysbysu'r person hwnnw ei bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r broses cyn asesu mewn cysylltiad ag ef. Mae rheoliadau 28 i 30E newydd (cam 2) yn gymwys pan fo'r darpar fabwysiadwydd, yn dilyn penderfyniad yr asiantaeth fabwysiadu y gall y darpar fabwysiadwydd fod yn addas i fabwysiadu, wedi hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu o fewn chwe mis i'r penderfyniad hwnnw ei fod yn dymuno bwrw ymlaen i gam 2 y broses gymeradwyo.

Mae rheoliad 22 newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth fabwysiadu lunio cynllun ysgrifenedig gan ymgynghori â'r darpar fabwysiadwydd ("cynllun cam un y darpar fabwysiadwydd") sydd i gynnwys gwybodaeth am rôl yr asiantaeth fabwysiadu a'r darpar fabwysiadwydd ym mroses cam un.

Mae rheoliad 25 newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth fabwysiadu gael tystysgrif cofnod troseddol manwl mewn cysylltiad â'r darpar fabwysiadwydd ac unrhyw aelod arall o aelwyd y darpar fabwysiadwydd sy'n 18 oed neu drosodd.

Mae rheoliad 26 newydd yn nodi'r wybodaeth cyn asesu arall y mae rhaid i asiantaeth fabwysiadu ei chael ac mae rheoliad 27 newydd yn darparu bod rhaid i asiantaeth fabwysiadu benderfynu, yng ngoleuni'r wybodaeth honno, a all y darpar fabwysiadwydd fod yn addas i fabwysiadu plentyn. Rhaid i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud o fewn dau fis i'r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth fabwysiadu y darpar fabwysiadwydd ei bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r broses cyn asesu yn unol â rheoliad 21 newydd, ond caiff yr asiantaeth oedi gwneud y penderfyniad hwnnw pan fo wedi ei bodloni bod rhesymau da dros wneud hynny neu ar gais y darpar fabwysiadwydd.

Mae rheoliad 29 newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth fabwysiadu lunio cynllun ysgrifenedig gan ymgynghori â'r darpar fabwysiadwydd ("cynllun asesu'r darpar fabwysiadwydd") sydd i gynnwys gwybodaeth am y weithdrefn ar gyfer asesu addasrwydd y darpar fabwysiadwydd i fabwysiadu plentyn o dan gam 2.

These Regulations substitute a new Part 4 (regulations 21 to 30G) in the Principal Regulations to provide for a two stage approval process for prospective adopters (the pre-assessment process – stage 1 and the assessment decision – stage 2). New regulations 21 to 27 (stage 1) apply where a person has notified an adoption agency that they want to adopt a child and the agency has notified that person that it has decided to proceed with the pre-assessment process in respect of them. New regulations 28 to 30G (stage 2) apply where, following the adoption agency's decision that the prospective adopter may be suitable to adopt, the prospective adopter has notified the adoption agency within six months of that decision that they wish to proceed to stage 2 of the approval process.

New regulation 22 requires the adoption agency to prepare a written plan in consultation with the prospective adopter ("the prospective adopter stage one plan") which is to include information about the role of the adoption agency and the prospective adopter in the stage one process.

New regulation 25 requires the adoption agency to obtain an enhanced criminal record certificate in respect of the prospective adopter and any other member of the prospective adopter's household who is aged 18 or over.

New regulation 26 sets out the other pre-assessment information that an adoption agency must obtain and new regulation 27 provides that an adoption agency must decide in light of that information whether the prospective adopter may be suitable to adopt a child. That decision must be made within two months from the date on which the adoption agency notified the prospective adopter that they had decided to proceed with the pre-assessment process in accordance with new regulation 21, but the agency may delay making that decision where it is satisfied that there are good reasons for doing so or upon the request of the prospective adopter.

New regulation 29 requires the adoption agency to prepare a written plan in consultation with the prospective adopter ("the prospective adopter assessment plan") which is to include information about the procedure for assessing the prospective adopter's suitability to adopt a child under stage 2.

Mae rheoliad newydd 30B yn darparu bod rhaid i asiantaeth fabwysiadu benderfynu a yw darpar fabwysiad ydd yn addas i fabwysiadu o fewn pedwar mis i'r dyddiad y cafodd yr asiantaeth hysbysiad y darpar fabwysiad ydd ei fod yn dymuno bwrw ymlaen â'r broses asesu. Caiff yr asiantaeth oedi gwneud y penderfyniad hwnnw pan fo'r asiantaeth yn ystyried bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu na all wneud y penderfyniad hwnnw o fewn yr amser hwnnw neu ar gais y darpar fabwysiad ydd.

Mae rheoliad newydd 30DD ac Atodlen newydd 4A yn darparu bod Rhan 4 o'r Prif Reoliadau, mewn achosion penodol, yn gymwys yn ddarostyngedig i'r addasiadau a nodir yn Atodlen 4A. Yr achosion hynny yw pan fo asiantaeth fabwysiadu wedi ei bodloni bod darpar fabwysiad ydd yn rhiant maeth a gymeradwywyd, neu ei fod, ar unrhyw adeg, wedi mabwysiadu plentyn o'r blaen yng Nghymru neu Loegr neu dramor (ar ôl cael ei gymeradwyo yn unol â'r Prif Reoliadau neu Reoliadau Mabwysiadu ag Efen Dramor 2005). Yn yr achosion hynny, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu benderfynu a yw'r darpar fabwysiad ydd yn addas i fabwysiadu o fewn pedwar mis i'r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth fabwysiadu y darpar fabwysiad ydd ei bod wedi benderfynu bwrw ymlaen â'r broses cyn asesu yn unol â rheoliad 21 newydd.

Mae rheoliad newydd 30E yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu atgyfeirio i Gofrestr Fabwysiadu Cymru (o fewn yr amserlen ofynnol) fanylion darpar fabwysiadwyr a gymeradwywyd.

Mae rheoliad 31 newydd yn darparu bod rhaid i asiantaeth fabwysiadu lunio cynllun ysgrifenedig gan ymgynghori â darpar fabwysiad ydd a gymeradwywyd ("cynllun paru'r darpar fabwysiad ydd") sydd i gynnwys gwybodaeth am ddyletswyddau'r asiantaeth mewn perthynas â lleoli ac adolygiadau. Yr eithriad i hyn yw mewn achos adran 83 (pan fo person yn bwriadu dod â phlentyn, neu beri bod rhywun arall yn dod â phlentyn, i'r Deyrnas Unedig o dan amgylchiadau pan fo adran 83 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (cyfyngiadau ar ddod â phlant i'r Deyrnas Unedig) yn gymwys).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol eraill i reoliadau Cymru a Lloegr a nodir yn Atodlen 1 ac sy'n cynnwys diwygiadau i Reoliadau Mabwysiadu ag Efen Dramor 2005 a mân ddiwygiadau i Reoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010, sy'n gwneud darpariaeth i'r adolygiad o benderfyniadau penodol gan asiantaethau mabwysiadu a darparwyr gwasanaethau maethu gael ei gynnal gan banel annibynnol a benodir gan Weinidogion Cymru.

New regulation 30B provides that an adoption agency must decide whether a prospective adopter is suitable to adopt within four months of the date on which the agency received the prospective adopter's notification that they wish to proceed with the assessment process. The agency may delay making that decision where the agency considers that there are exceptional circumstances which mean it cannot make that decision within that time or upon the request of the prospective adopter.

New regulation 30F and Schedule 4A provide that in certain cases Part 4 of the Principal Regulations applies subject to the modifications set out in Schedule 4A. Those cases are where an adoption agency is satisfied that a prospective adopter is an approved foster parent or has, at any time, previously adopted a child in England or Wales or overseas (having been approved in accordance with the Principal Regulations or the Adoptions with a Foreign Element Regulations 2005). In those cases the adoption agency must decide whether the prospective adopter is suitable to adopt within four months from the date on which the adoption agency notified the prospective adopter that they had decided to proceed with the pre-assessment process in accordance with new regulation 21.

New regulation 30G requires adoption agencies to refer (within the required timescale) details of approved prospective adopters to the Adoption Register for Wales.

New regulation 31 provides that an adoption agency must prepare a written plan in consultation with an approved prospective adopter ("the prospective adopter matching plan") which is to include information about the duties of the agency in relation to placement and reviews. The exception is in a section 83 case (where a person intends to bring, or to cause another to bring, a child into the United Kingdom in circumstances where section 83 of the Adoption and Children Act 2002 (restrictions on bringing children into the United Kingdom) applies).

These Regulations make other consequential amendments to English and Welsh regulations which are set out in Schedule 1 and include amendments to the Adoptions with a Foreign Element Regulations 2005 and minor amendments to the Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) Regulations 2010, which make provision for the review of certain determinations by adoption agencies and fostering service providers, to be carried out by an independent panel appointed by Welsh Ministers.

Mae Atodlen 2 yn cynnwys diwygiadau i destun Cymraeg y Prif Reoliadau nad oeddynt wedi eu cyflwyno yn flaenorol gan Orchymyn Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2009 a Gorchymyn Gorchymyn Trefniadau Plentyn (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2014.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Schedule 2 contains amendments to the Welsh language text of the Principal Regulations which were not previously introduced by the Human Fertilisation and Embryology (Consequential Amendments and Transitional and Saving Provisions) Order 2009 and the Child Arrangements Order (Consequential Amendments to Subordinate Legislation) Order 2014.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Department of Health and Social Services, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2020 Rhif 163 (Cy. 31)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU A LLOEGR**

**Rheoliadau Asiantaethau
Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio)
2020**

Gwnaed 17 Chwefror 2020

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 20 Chwefror 2020

Yn dod i rym 1 Ebrill 2020

2020 No. 163 (W. 31)

**SOCIAL CARE, ENGLAND
AND WALES**

**The Adoption Agencies (Wales)
(Amendment) Regulations 2020**

Made 17 February 2020

Laid before the National Assembly for Wales
20 February 2020

Coming into force 1 April 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 9(1)(a), 11(2) a (3), 12(1), 45(1), 54, 83(4) a (5), 140(7) ac (8) a 142(5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(2) ac adrannau 174(7) a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(3), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Prif Reoliadau" yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(4).

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 9(1)(a), 11(2) and (3), 12(1), 45(1), 54, 83(4) and (5), 140(7) and (8) and 142(5) of the Adoption and Children Act 2002(2) and sections 174(7) and 196(2) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(3), make the following Regulations:

Title, commencement and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Adoption Agencies (Wales) (Amendment) Regulations 2020.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2020.

(3) In these Regulations, "the Principal Regulations" means the Adoption Agencies (Wales) Regulations 2005(4).

(1) Diwygiwyd adran 12 gan adran 57 o Ddeddf Plant 2004 (p. 31) a chan adran 34 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(2) 2002 p. 38; gweler y diffiniadau o "regulations", "appropriate Minister" a "the Assembly" yn adran 144(1). Trosglwyddwyd y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(3) 2014 dccc 4; gweler y diffiniad o "rheoliadau" yn adran 197(1).

(4) O.S. 2005/1313 (Cy. 95), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(1) Section 12 was amended by section 57 of the Children Act 2004 (c. 31) and by section 34 of the Children and Young Persons Act 2008 (c. 23).

(2) 2002 c. 38; see the definitions of "regulations", "appropriate Minister" and "the Assembly" in section 144(1). The power conferred on the National Assembly for Wales to make regulations under the Adoption and Children Act 2002 transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(3) 2014 anaw 4; see the definition of "regulations" in section 197(1).

(4) S.I. 2005/1313 (W. 95) to which there are amendments not relevant to these Regulations.

Diwygio'r Prif Reoliadau

2. Mae'r Prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

3. Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“mae i “adroddiad adolygu darpar fabwysiadydd” (“*prospective adopter's review report*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 30CH(5)(a);”;

“mae i “adroddiad darpar fabwysiadydd” (“*prospective adopter's report*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 30(2);”;

“ystyr “Cofrestr Fabwysiadu Cymru” (“*the Adoption Register for Wales*”) yw'r gofrestr sy'n cynnwys gwybodaeth am blant sy'n addas i'w mabwysiadu a darpar fabwysiadwyr sy'n addas i fabwysiadu plentyn, sydd wedi ei sefydlu o dan adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(1) ac a gynhelir ar ran Gweinidogion Cymru;”;

“mae i “cynllun asesu darpar fabwysiadydd” (“*prospective adopter assessment plan*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 29;”;

“mae i “cynllun cam un darpar fabwysiadydd” (“*prospective adopter stage one plan*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 22;”;

“mae i “cynllun paru darpar fabwysiadydd” (“*prospective adopter matching plan*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 31;”;

“mae i “darparwr gwasanaethau maethu” (“*fostering services provider*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018(2);”;

“mae i “paratoad ar gyfer mabwysiadu” (“*preparation for adoption*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 24;”;

“ystyr “Rheoliadau 2014” (“*the 2014 Regulations*”) yw Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014(3);”;

(b) yn lle'r diffiniad o “dyfarniad o gymhwyster” rhodder—

“mae i “dyfarniad o gymhwyster” (“*qualifying determination*”) yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 30B(5)(a);”.

Amendment of the Principal Regulations

2. The Principal Regulations are amended as follows.

3. In regulation 2 (interpretation)—

(a) in the appropriate places insert—

““the 2014 Regulations” (“*Rheoliadau 2014*”) means the Representations Procedure (Wales) Regulations 2014(1);”;

““the Adoption Register for Wales” (“*Cofrestr Fabwysiadu Cymru*”) means the register containing information about children who are suitable for adoption and prospective adopters who are suitable to adopt a child, which is established under section 60 of the Government of Wales Act 2006(2) and maintained on behalf of the Welsh Ministers;”;

““fostering services provider” (“*darparwr gwasanaethau maethu*”) has the meaning given in regulation 2 of the Fostering Panels (Establishment and Functions) (Wales) Regulations 2018(3);”;

““preparation for adoption” (“*paratoad ar gyfer mabwysiadu*”) has the meaning given in regulation 24;”;

““prospective adopter assessment plan” (“*cynllun asesu darpar fabwysiadydd*”) has the meaning given in regulation 29;”;

““prospective adopter matching plan” (“*cynllun paru darpar fabwysiadydd*”) has the meaning given in regulation 31;”;

““prospective adopter stage one plan” (“*cynllun cam un darpar fabwysiadydd*”) has the meaning given in regulation 22;”;

““prospective adopter's report” (“*adroddiad darpar fabwysiadydd*”) has the meaning given in regulation 30(2);”;

““prospective adopter's review report” (“*adroddiad adolygu darpar fabwysiadydd*”) has the meaning given in regulation 30D(5)(a);”;

(b) for the definition of “qualifying determination” substitute—

““qualifying determination” (“*dyfarniad o gymhwyster*”) has the meaning given in regulation 30B(5)(a);”.

(1) 2006 p. 32.

(2) O.S. 2018/1333 (Cy. 260).

(3) O.S. 2014/1795 (Cy. 188), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/211 (Cy. 84), O.S. 2018/48 (Cy. 15) ac O.S. 2019/237 (Cy. 56).

(1) S.I. 2014/1795 (W. 188), amended by S.I. 2016/211 (W. 84), S.I. 2018/48 (W. 15) and S.I. 2019/237 (W. 56).

(2) 2006 c. 32.

(3) S.I. 2018/1333 (W. 260).

4. Yn rheoliad 16(2) (gofyniad i gael gwybodaeth am deulu'r plentyn (gan gynnwys gwybodaeth am iechyd y teulu)), hepgorer "naturiol" ac ar ôl "rieni" mewnosoder "geni".

5. Yn rheoliad 17 (gofyniad i baratoi adroddiad ysgrifenedig)—

- (a) ym mharagraff (2C), yn lle "yn (2D)" rhodder "ym mharagraff (2CH)";
- (b) yn y testun Cymraeg, ailrifer y paragraff (2D) presennol yn baragraff (2CH) o'r rheoliad hwnnw;
- (c) ym mharagraff (2CH)(iii) (fel y'i hailrifwyd), yn lle "naturiol" rhodder "geni".

6. Yn nhestun Cymraeg rheoliad 19(1A) (penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu), yn lle "17(2D)" rhodder "17(2CH)".

7. Ar ôl rheoliad 19 mewnosoder—

"Atgyfeirio at Gofrestr Fabwysiadu Cymru - plant

19A.—(1) Pan fo asiantaeth fabwysiadu—

- (a) wedi'i hawdurdodi i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, a
- (b) heb nodi darpar fabwysiadwyr penodol y mae'n ystyried lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu gyda hwy,

rhaid i'r asiantaeth ddarparu manylion am y plentyn i'r sefydliad sy'n cynnal Cofrestr Fabwysiadu Cymru i'w cofnodi yn y gofrestr cyn gynted â phosibl a dim hwyrach nag un mis ar ôl y dyddiad yr awdurdodwyd yr asiantaeth i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

(2) Pan fo asiantaeth fabwysiadu yn dod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r manylion am y plentyn, rhaid i'r asiantaeth hysbysu'r(1) sefydliad sy'n cynnal y gofrestr o'r newidiadau hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(3) Ym mharagraff (1), ystyr "wedi'i hawdurdodi i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu" yw naill ai—

- (a) wedi'i hawdurdodi i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu yn unol â chydsyniad rhiant o dan adran 19 o'r Ddeddf, neu

4. In regulation 16(2) (requirement to obtain information (including health information) about the child's family), for "natural" substitute "birth".

5. In regulation 17 (requirement to prepare a written report)—

- (a) in paragraph (2C), for "in (2D)" substitute "in paragraph (2D)";
- (b) in the Welsh language text, the existing paragraph (2D) is renumbered as paragraph (2CH) of that regulation;
- (c) in paragraph (2D)(iii), for "natural" substitute "birth".

6. In the Welsh language text of regulation 19(1A) (adoption agency decision and notification), for "17(2D)" substitute "17(2CH)".

7. After regulation 19 insert—

"Referral to the Adoption Register for Wales - children

19A.—(1) Where an adoption agency—

- (a) is authorised to place a child for adoption, and
- (b) has not identified particular prospective adopters with whom it is considering placing the child for adoption,

the agency must provide details about the child to the organisation which maintains the Adoption Register for Wales for entry in the register as soon as possible and no later than one month after the date on which the agency was authorised to place the child for adoption.

(2) Where an adoption agency becomes aware of any changes to the details about the child, the agency must notify(1) the organisation which maintains the register of those changes as soon as reasonably practicable.

(3) In paragraph (1), "authorised to place a child for adoption" means either—

- (a) authorised to place a child for adoption pursuant to parental consent under section 19 of the Act, or

(1) Ystyr "hysbysu", a ddiffinnir yn rheoliad 2 o'r Prif Reoliadau, yw hysbysu yn ysgrifenedig.

(1) "Notify", which is defined in regulation 2 of the Principal Regulations, means notify in writing.

- (b) wedi'i hawdurdodi i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu yn unol â gorchymyn lleoliad a wneir yn unol ag adran 21(1) o'r Ddeddf."

8. Yn rheoliad 20(1) (cais i benodi swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog o CAF/CASS), ar ôl "rhiant neu warcheidwad y plentyn" mewnosoder "yn preswyllo yng Nghymru a Lloegr ac".

9. Ar ôl rheoliad 20 mewnosoder—

"Personau sydd wedi'u hawdurdodi i fod yn dyst i gydsyniad i leoli ar gyfer mabwysiadu"

20A.—(1) Pan fo'r rhiant neu'r gwarcheidwad yn preswyllo y tu allan i Gymru a Lloegr ac yn barod i gydsynio i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu o dan adran 19 o'r Ddeddf ac, yn ôl y digwydd, i gydsynio i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu drefnu i berson awdurdodedig gael ei benodi i fod yn dyst wrth i'r rhiant hwnnw neu'r gwarcheidwad hwnnw gwblhau'r ffurflen cydsynio i leoli neu i fabwysiadu ac anfon at y person hwnnw yr wybodaeth a bennir yn Atodlen 2.

(2) Ystyr "person awdurdodedig" at ddibenion y rheoliad hwn yw mewn perthynas â ffurflen gydsynio a gwblheir—

- (a) yn yr Alban, Ynad Heddwch neu Siryf;
- (b) yng Ngogledd Iwerddon, Ynad Heddwch;
- (c) y tu allan i'r Deyrnas Unedig, unrhyw berson sydd am y tro wedi'i awdurdodi yn ôl y gyfraith yn y man lle y cwblheir y ddogfen i weinyddu llw at unrhyw ddiben barnwrol neu at unrhyw ddiben cyfreithiol arall, swyddog Consylaidd Prydeinig, notari cyhoeddus neu, os yw'r person sy'n cwblhau'r ddogfen yn gwasanaethu yn unrhyw un o luoedd arfog rheolaidd y Goron, swyddog sy'n dal comisiwn mewn unrhyw un o'r lloedd hynny."

10. Yn lle Rhan 4 rhodder—

- (b) authorised to place a child for adoption pursuant to a placement order made pursuant to section 21(1) of the Act."

8. In regulation 20(1) (request to appoint a Welsh family proceedings officer or an officer of CAF/CASS), after "parent or guardian of the child" insert "resides in England and Wales and".

9. After regulation 20 insert—

Persons authorised to witness consent to placement for adoption

20A.—(1) Where the parent or guardian resides outside England and Wales and is prepared to consent to the placement of the child for adoption under section 19 of the Act and, as the case may be, to consent to the making of a future adoption order under section 20 of the Act, the adoption agency must arrange for the appointment of an authorised person to witness the execution of the form of consent to placement or to adoption by that parent or guardian and send to that person the information specified in Schedule 2.

(2) "Authorised person" for the purposes of this regulation means in relation to a form of consent executed—

- (a) in Scotland, a Justice of the Peace or a Sheriff;
- (b) in Northern Ireland, a Justice of the Peace;
- (c) outside the United Kingdom, any person for the time being authorised by law in the place where the document is executed to administer an oath for any judicial or other legal purpose, a British Consular officer, a notary public or, if the person executing the document is serving in any of the regular armed forces of the Crown, an officer holding a commission in any of those forces."

10. For Part 4 substitute—

“RHAN 4
DYLETSWYDDAU ASiantaeth
FABWYSIADU O RAN DARPAR
FABWYSIADYDD

Cam 1 – y broses cyn asesu

Cofrestru diddordeb mewn mabwysiadu

21. Mae rheoliadau 22 i 27 yn gymwys pan fo person wedi hysbysu asiantaeth fabwysiadu ei fod am fabwysiadu plentyn a bo’r asiantaeth wedi hysbysu’r person hwnnw ei bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â’r broses cyn asesu mewn cysylltiad â’r person hwnnw.

Cynllun cam un darpar fabwysiadydd

22. Rhaid i’r asiantaeth fabwysiadu baratoi cynllun ysgrifenedig gan ymgynghori â’r darpar fabwysiadydd (“cynllun cam un y darpar fabwysiadydd”) sy’n cynnwys y materion canlynol—

- (a) gwybodaeth am y cwnsela, yr wybodaeth a’r paratoad ar gyfer mabwysiadu sydd i’w darparu o dan reoliad 24,
- (b) y weithdrefn ar gyfer cynnal gwiriadau heddlu o dan reoliad 25,
- (c) manylion unrhyw hyfforddiant y mae’r darpar fabwysiadydd wedi cytuno i ymgymryd ag ef,
- (ch) gwybodaeth am rôl y darpar fabwysiadydd ym mroses cam un,
- (d) unrhyw amserlenni cymwys,
- (dd) gwybodaeth am y broses ar gyfer cyflwyno sylwadau (gan gynnwys cwyn) o dan Reoliadau 2014, ac
- (e) unrhyw wybodaeth arall y mae’r asiantaeth yn ystyried ei bod yn berthnasol.

Cofnod achos darpar fabwysiadydd

23.—(1) Rhaid i’r asiantaeth fabwysiadu sefydlu cofnod achos mewn cysylltiad â’r darpar fabwysiadydd (“cofnod achos y darpar fabwysiadydd”) a rhoi yn y cofnod achos hwnnw—

- (a) cynllun cam un y darpar fabwysiadydd,

“PART 4
DUTIES OF ADOPTION AGENCY IN
RESPECT OF A PROSPECTIVE
ADOPTER

Stage 1 – the pre-assessment process

Registration of interest in adoption

21. Regulations 22 to 27 apply when a person has notified an adoption agency that they want to adopt a child and the agency has notified that person that it has decided to proceed with the pre-assessment process in respect of that person.

Prospective adopter stage one plan

22. The adoption agency must prepare a written plan in consultation with the prospective adopter (“the prospective adopter stage one plan”) which includes the following matters—

- (a) information about the counselling, information and preparation for adoption to be provided under regulation 24,
- (b) the procedure for carrying out police checks under regulation 25,
- (c) details of any training that the prospective adopter has agreed to undertake,
- (d) information about the role of the prospective adopter in the stage one process,
- (e) any applicable timescales,
- (f) information about the process for making a representation (including a complaint) under the 2014 Regulations, and
- (g) any other information that the agency considers relevant.

Prospective adopter’s case record

23.—(1) The adoption agency must set up a case record in respect of the prospective adopter (“the prospective adopter’s case record”) and place on that case record—

- (a) the prospective adopter stage one plan,

- (b) yr wybodaeth a'r adroddiadau a gafwyd gan yr asiantaeth yn rhinwedd y Rhan hon,
- (c) cynllun asesu'r darpar fabwysiadydd;
- (ch) adroddiad y darpar fabwysiadydd a sylwadau'r darpar fabwysiadydd ar yr adroddiad hwnnw,
- (d) y cofnod ysgrifenedig o drafodion y panel mabwysiadu a gynhelir o dan reoliad 30A (a phan fo'n gymwys reoliad 30B(8)), ei argymhelliad, y rhesymau dros yr argymhelliad ac unrhyw gyngor a roddir gan y panel i'r asiantaeth,
- (dd) y cofnod o benderfyniad yr asiantaeth o dan reoliad 30B(1), (6) neu yn ôl y digwydd (9),
- (e) pan fo'r darpar fabwysiadydd wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol, argymhelliad y panel adolygu hwnnw,
- (f) pan fo'n gymwys, adroddiad adolygu'r darpar fabwysiadydd a sylwadau'r darpar fabwysiadydd ar yr adroddiad hwnnw,
- (ff) cynllun paru'r darpar fabwysiadydd, ac
- (g) unrhyw ddogfennau eraill neu wybodaeth arall a gafwyd gan yr asiantaeth ac y mae'n ystyried y dylid eu cynnwys neu ei chynnwys yn y cofnod achos hwnnw.

(2) Caiff yr asiantaeth fabwysiadu ofyn i'r darpar fabwysiadydd ddarparu unrhyw wybodaeth bellach y mae'n rhesymol i'r asiantaeth ei gwneud yn ofynnol.

(3) Pan fo paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â chwpl, rhaid i'r asesiad o'u haddasrwydd i fabwysiadu plentyn gael ei ystyried ar y cyd a rhaid i'r asiantaeth sefydlu un cofnod achos.

Gofyniad i ddarparu cwnsela, gwybodaeth a pharatoad ar gyfer mabwysiadu

24.—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu—

- (a) darparu gwasanaeth cwnsela ar gyfer y darpar fabwysiadydd,

- (b) the information and reports obtained by the agency by virtue of this Part,
- (c) the prospective adopter assessment plan,
- (d) the prospective adopter's report and the prospective adopter's observations on that report,
- (e) the written record of the proceedings of the adoption panel held under regulation 30A (and where applicable regulation 30B(8)), its recommendation, the reasons for the recommendation and any advice given by the panel to the agency,
- (f) the record of the agency's decision under regulation 30B(1), (6) or as the case may be (9),
- (g) where the prospective adopter applied to the Welsh Ministers for a review by an independent review panel, the recommendation of that review panel,
- (h) where applicable, the prospective adopter's review report and the prospective adopter's observations on that report,
- (i) the prospective adopter matching plan, and
- (j) any other documents or information obtained by the agency which it considers should be included in that case record.

(2) The adoption agency may ask the prospective adopter to provide any further information that the agency may reasonably require.

(3) Where paragraph (1) applies in relation to a couple, the assessment of their suitability to adopt a child must be considered jointly and the agency must set up a single case record.

Requirement to provide counselling, information and preparation for adoption

24.—(1) The adoption agency must—

- (a) provide a counselling service for the prospective adopter,

- (b) mewn achos adran 83(1), esbonio i'r darpar fabwysiadydd, a darparu gwybodaeth ysgrifenedig am y weithdrefn mewn perthynas â mabwysiadu plentyn o'r wlad y mae'r darpar fabwysiadydd yn dymuno mabwysiadu ohoni a goblygiadau cyfreithiol gwneud hynny,
- (c) mewn unrhyw achos arall, esbonio i'r darpar fabwysiadydd, a darparu gwybodaeth ysgrifenedig am y weithdrefn mewn perthynas â lleoli ar gyfer mabwysiadu a mabwysiadu a goblygiadau cyfreithiol gwneud hynny,
- (ch) darparu i'r darpar fabwysiadydd unrhyw wybodaeth a deunyddiau hyfforddi sydd ar gael ac sy'n ymwneud â mabwysiadu plentyn, a
- (d) gwneud trefniadau i'r darpar fabwysiadydd gael unrhyw baratoad ar gyfer mabwysiadu y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn briodol.

(2) Ym mharagraff (1)(d), mae “paratoad ar gyfer mabwysiadu” yn cynnwys darparu gwybodaeth i'r darpar fabwysiadydd am—

- (a) ystod oedran, rhyw, anghenion tebygol a chefnidir plant y caiff yr asiantaeth fabwysiadu eu lleoli ar gyfer eu mabwysiadu;
- (b) arwyddocâd mabwysiadu i blentyn a theulu'r plentyn,
- (c) cyswllt rhwng plentyn a rhiant geni neu warcheidwad, brodyr a chworydd a pherthnasau eraill y plentyn pan awdurdodir lleoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu neu pan fo wedi'i fabwysiadu,
- (ch) y sgiliau sy'n angenrheidiol ar riant mabwysiadol,
- (d) safbwynt y plentyn a theulu'r plentyn ar fabwysiadu,
- (dd) gweithdrefnau'r asiantaeth fabwysiadu mewn perthynas ag asesu darpar fabwysiadydd a lleoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, ac
- (e) y weithdrefn mewn perthynas â lleoli ar gyfer mabwysiadu a mabwysiadu.

- (b) in a section 83 case(1), explain to the prospective adopter, and provide written information about, the procedure in relation to, and the legal implications of, adopting a child from the country from which the prospective adopter wishes to adopt,
- (c) in any other case, explain to the prospective adopter, and provide written information about, the procedure in relation to, and the legal implications of, placement for adoption and adoption,
- (d) provide the prospective adopter with any available information and training materials relating to adopting a child, and
- (e) make arrangements for the prospective adopter to receive such preparation for adoption as the agency considers appropriate.

(2) In paragraph (1)(e), “preparation for adoption” includes the provision of information to the prospective adopter about—

- (a) the age range, sex, likely needs and background of children who may be placed for adoption by the adoption agency,
- (b) the significance of adoption for a child and the child's family,
- (c) contact between a child and the child's birth parent or guardian, siblings and other relatives where a child is authorised to be placed for adoption or is adopted,
- (d) the skills which are necessary for an adoptive parent,
- (e) the perspective of the child and the child's family on adoption,
- (f) the adoption agency's procedures in relation to the assessment of a prospective adopter and the placement of a child for adoption, and
- (g) the procedure in relation to placement for adoption and adoption.

(1) Ystyr “achos adran 83”, a ddiffinnir yn rheoliad 2 o'r Prif Reoliadau, yw achos pan fo person yn bwriadu dod â phlentyn, neu beri bod rhywun arall yn dod â phlentyn, i'r Deyrnas Unedig o dan amgylchiadau pan fo adran 83 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (cyfyngiadau ar ddod â phlant i'r Deyrnas Unedig) yn gymwys.

(1) A “section 83 case”, which is defined in regulation 2 of the Principal Regulations, means a case where a person intends to bring, or to cause another to bring, a child into the United Kingdom in circumstances where section 83 of the Adoption and Children Act 2002 (restrictions on bringing children into the United Kingdom) applies.

Gofyniad i gynnal gwiriadau heddlu

25.—(1) Mewn cysylltiad â'r darpar fabwysiadwydd ac unrhyw aelod arall o aelwyd y darpar fabwysiadwydd sy'n 18 oed neu drosodd, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael tystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(1) sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr "suitability information relating to children" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno).

(2) Ni chaiff asiantaeth fabwysiadu ystyried darpar fabwysiadwydd yn addas i fabwysiadu plentyn os yw'r person hwnnw neu unrhyw aelod o aelwyd y person hwnnw sy'n 18 oed neu drosodd—

- (a) wedi'i gollfarnu o dramgwydd penodedig a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd, neu
- (b) wedi cael rhybuddiad gan gwnstabl mewn cysylltiad ag unrhyw dramgwydd o'r fath.

(3) Ym mharagraff (2), ystyr "tramgwydd penodedig" yw—

- (a) tramgwydd yn erbyn plentyn;
- (b) tramgwydd a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 3;
- (c) tramgwydd yn groes i adran 170 o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979(2) mewn perthynas â nwyddau y gwaherddir eu mewnfario o dan adran 42 o Ddeddf Cydgrynhoi Tollau 1876 (gwaharddiadau a chyfyngiadau sy'n ymwneud â phornograffi)(3) pan oedd y nwyddau gwaharddedig yn cynnwys ffotograffau anwedus o blant o dan 16 oed;
- (ch) unrhyw dramgwydd arall sy'n ymwneud ag anaf corfforol i blentyn, ac eithrio tramgwydd ymosod cyffredin neu guro,

Requirement to carry out police checks

25.—(1) In respect of the prospective adopter and any other member of the prospective adopter's household who is aged 18 or over, the adoption agency must obtain an enhanced criminal record certificate issued under section 113B of the Police Act 1997(1) which includes suitability information relating to children (within the meaning of section 113BA(2) of that Act).

(2) An adoption agency may not consider a prospective adopter suitable to adopt a child if that person or any member of that person's household aged 18 or over—

- (a) has been convicted of a specified offence committed at the age of 18 or over, or
- (b) has been cautioned by a constable in respect of any such offence.

(3) In paragraph (2), "specified offence" means—

- (a) an offence against a child;
- (b) an offence specified in Part 1 of Schedule 3;
- (c) an offence contrary to section 170 of the Customs and Excise Management Act 1979(2) in relation to goods prohibited to be imported under section 42 of the Customs Consolidation Act 1876 (prohibitions and restrictions relating to pornography)(3) where the prohibited goods included indecent photographs of children under the age of 16;
- (d) any other offence involving bodily injury to a child, other than an offence of common assault or battery,

(1) 1997 p. 50. Mewnosodwyd adran 113B gan adran 163(2) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15). Mae diwygiadau eraill i Ddeddf yr Heddlu 1997 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) 1979 p. 2.
(3) 1876 p. 36.

(1) 1997 c. 50. Section 113B was inserted by section 163(2) of the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15). There are other amendments to the Police Act 1997 which are not relevant to these Regulations.

(2) 1979 c. 2.
(3) 1876 c. 36.

ac mae i'r ymadrodd "tramgwydd yn erbyn plentyn" yr ystyr a roddir i "offence against a child" gan adran 26(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000(1), er gwaethaf diddymu'r ddarpariaeth honno(2), ac eithrio nad yw'n cynnwys tramgwydd yn groes i adran 9 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 2003 (gweithgaredd rhywiol gyda phlentyn)(3) mewn achos pan oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed a bod y plentyn yn 13 oed neu drosodd ar adeg cyflawni'r tramgwydd.

(4) Ni chaiff asiantaeth fabwysiadu ystyried person yn addas i fabwysiadu plentyn os yw'r person hwnnw neu unrhyw aelod o aelwyd y person hwnnw sy'n 18 oed neu drosodd—

- (a) wedi'i gollfarnu o dramgwydd a bennir ym mharagraff 1 o Ran 2 o Atodlen 3 a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd, neu wedi cael rhybuddiad gan gwnstabl mewn cysylltiad ag unrhyw dramgwydd o'r fath, neu
- (b) yn dod o fewn paragraff 2 neu 3 o Ran 2 o Atodlen 3,

er gwaethaf bod y tramgwyddau a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 3 wedi'u diddymu.

(5) Pan fo asiantaeth fabwysiadu yn dod yn ymwybodol bod darpar fabwysiadydd neu aelod o aelwyd y darpar fabwysiadydd yn dod o fewn paragraff (2) neu (4), rhaid i'r asiantaeth hysbysu'r darpar fabwysiadydd cyn gynted â phosibl na ellir ei ystyried yn addas i fabwysiadu plentyn.

Gwybodaeth cyn asesu arall

26. Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu—

- (a) cael yr wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 4,
- (b) cael adroddiad ysgrifenedig gan ymarferydd meddygol cofrestredig am iechyd y darpar fabwysiadydd yn dilyn archwiliad llawn y mae rhaid iddo gynnwys y materion a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 4 onid yw adroddiad o'r fath wedi'i wneud o fewn 6 mis ar ôl i'r panel ystyried yr achos o dan reoliad 30A a'i fod ar gael i'r asiantaeth,

and the expression "offence against a child" has the meaning given to it by section 26(1) of the Criminal Justice and Courts Services Act 2000(1), notwithstanding the repeal of that provision(2), except that it does not include an offence contrary to section 9 of the Sexual Offences Act 2003 (sexual activity with a child)(3) in a case where the offender was under the age of 20 and the child was 13 or over at the time the offence was committed.

(4) An adoption agency may not consider a person suitable to adopt a child if that person or any member of that person's household aged 18 or over—

- (a) has been convicted of an offence specified in paragraph 1 of Part 2 of Schedule 3 committed at the age of 18 or over or has been cautioned by a constable in respect of any such offence, or
- (b) falls within paragraph 2 or 3 of Part 2 of Schedule 3,

notwithstanding that the offences specified in Part 2 of Schedule 3 have been repealed.

(5) Where an adoption agency becomes aware that a prospective adopter or a member of the prospective adopter's household falls within paragraph (2) or (4), the agency must notify the prospective adopter as soon as possible that they cannot be considered suitable to adopt a child.

Other pre-assessment information

26. The adoption agency must—

- (a) obtain the information about the prospective adopter which is specified in Part 1 of Schedule 4,
- (b) obtain a written report from a registered medical practitioner about the health of the prospective adopter following a full examination which must include the matters specified in Part 2 of Schedule 4 unless such a report has been made within 6 months of the panel's consideration of the case under regulation 30A and is available to the agency,

(1) 2000 p. 43.

(2) *Gweler* Atodlen 10 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p. 47).

(3) 2003 p. 42.

(1) 2000 c. 43.

(2) *See* Schedule 10 to the Safeguarding Vulnerable Groups 2006 Act (c. 47).

(3) 2003 c. 42.

- (c) cael adroddiad ysgrifenedig am bob un o'r cyfweiliadau â'r personau a enwebwyd gan y darpar fabwysiadydd i ddarparu geirda personol ar gyfer y darpar fabwysiadydd,
- (ch) pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, gael geirda personol gan gyn-briod, cyn-bartner sifil neu gyn-bartner y darpar fabwysiadydd,
- (d) pan nad yr awdurdod lleol y mae gan y darpar fabwysiadydd ei gartref yn ei ardal ydyw, ganfod a oes gan yr awdurdod lleol y mae gan y darpar fabwysiadydd ei gartref yn ei ardal unrhyw wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a all fod yn berthnasol i asesiad o addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu ac os felly gael gan yr awdurdod hwnnw adroddiad ysgrifenedig sy'n nodi'r wybodaeth honno, a
- (dd) pan fo gan y darpar fabwysiadydd ei gartref yn ardal yr awdurdod lleol am lai na deuddeg mis, hefyd ganfod a oes gan yr awdurdod lleol yr oedd gan y darpar fabwysiadydd ei gartref yn ei ardal cyn hynny unrhyw wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a all fod yn berthnasol i asesiad o addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu ac os felly gael gan yr awdurdod hwnnw adroddiad ysgrifenedig sy'n nodi'r wybodaeth honno.
- (c) obtain a written report of each of the interviews with the persons nominated by the prospective adopter to provide personal references for the prospective adopter,
- (d) where the adoption agency considers it necessary, obtain a personal reference from the prospective adopter's former spouse, civil partner or partner,
- (e) where it is not the local authority in whose area the prospective adopter has their home, ascertain whether the local authority in whose area the prospective adopter has their home has any information about the prospective adopter which may be relevant to an assessment of the prospective adopter's suitability to adopt and if so obtain from that authority a written report setting out that information, and
- (f) where the prospective adopter has their home in the local authority area for less than twelve months, also ascertain whether the local authority in whose area the prospective adopter previously had their home has any information about the prospective adopter which may be relevant to an assessment of the prospective adopter's suitability to adopt and if so obtain from that authority a written report setting out that information.

Penderfyniad cyn asesu

27.—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, gan ystyried yr wybodaeth a gafwyd o dan reoliadau 25 a 26, benderfynu—

- (a) a all y darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwysiadu plentyn, neu
- (b) nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i'r asiantaeth wneud ei phenderfyniad o dan baragraff (1) o fewn cyfnod o ddau fis i'r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth fabwysiadu y darpar fabwysiadydd ei bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r broses cyn asesu yn unol â rheoliad 21.

Pre-assessment decision

27.—(1) The adoption agency must, taking into account the information obtained under regulations 25 and 26, decide—

- (a) whether the prospective adopter may be suitable to adopt a child, or
- (b) whether the prospective adopter is not suitable to adopt a child.

(2) Subject to paragraph (3), the agency must make its decision under paragraph (1) within a period of two months from the date on which the adoption agency notified the prospective adopter that it had decided to proceed with the pre-assessment process in accordance with regulation 21.

(3) Caiff yr asiantaeth fabwysiadu oedi gwneud y penderfyniad o dan baragraff (1)—

- (a) pan fo wedi'i bodloni bod rhesymau da dros wneud hynny oherwydd, er enghraifft, fod oedi wedi bod wrth gael gwybodaeth am y darpar fabwysiadu, neu
- (b) ar gais y darpar fabwysiadu.

(4) Pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu y gall y darpar fabwysiadu fod yn addas i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth—

- (a) cyn gynted ag y bo'n ymarferol, hysbysu'r darpar fabwysiadu o'i phenderfyniad, a
- (b) esbonio i'r darpar fabwysiadu fod rhaid iddo hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu ei fod yn dymuno parhau â'r broses asesu o fewn chwe mis i'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad.

(5) Pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu nad yw'r darpar fabwysiadu yn addas i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud y penderfyniad, hysbysu'r darpar fabwysiadu o'i phenderfyniad ynghyd â'r rhesymau dros ei phenderfyniad.

Cam 2 – y penderfyniad asesu

Asesiad cam 2

28.—(1) Mae rheoliadau 28 i 30E yn gymwys pan fo'r darpar fabwysiadu yn hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu ei fod yn dymuno parhau â'r broses asesu o fewn chwe mis i'r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth y darpar fabwysiadu y gall fod yn addas i fabwysiadu o dan reoliad 27(4).

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r darpar fabwysiadu yn hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu ei fod yn dymuno parhau â'r broses asesu fwy na chwe mis ar ôl cael ei hysbysu yn unol â rheoliad 27(4).

(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r darpar fabwysiadu na chaiff y darpar fabwysiadu fwrw ymlaen â'r broses asesu onid yw'r broses cyn asesu yn cael ei hailadrodd i'r graddau y mae'r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried ei bod yn angenrheidiol er mwyn penderfynu a yw'n parhau i fod wedi'i fodloni y gall y darpar fabwysiadu fod yn addas i fabwysiadu plentyn.

(3) The adoption agency may delay making the decision under paragraph (1)—

- (a) where it is satisfied there are good reasons to do so because, for example, there has been a delay in obtaining information about the prospective adopter, or
- (b) upon the request of the prospective adopter.

(4) Where the adoption agency decides that the prospective adopter may be suitable to adopt a child, the agency must—

- (a) as soon as practicable, notify the prospective adopter of its decision, and
- (b) explain to the prospective adopter that they must notify the adoption agency that they wish to continue with the assessment process within six months of the date on which the notification is given.

(5) Where the adoption agency decides that the prospective adopter is not suitable to adopt a child, the agency must as soon as practicable after making the decision notify the prospective adopter of its decision together with reasons for its decision.

Stage 2 – the assessment decision

Stage 2 assessment

28.—(1) Regulations 28 to 30G apply where the prospective adopter notifies the adoption agency that they wish to continue with the assessment process within six months from the date on which the agency notified the prospective adopter that they may be suitable to adopt under regulation 27(4).

(2) This paragraph applies where the prospective adopter notifies the adoption agency that they wish to continue with the assessment process more than six months after being notified in accordance with regulation 27(4).

(3) Where paragraph (2) applies, the adoption agency must notify the prospective adopter that the prospective adopter may not proceed with the assessment process unless the pre-assessment process is repeated to the extent the adoption agency considers necessary to determine whether it continues to be satisfied that the prospective adopter may be suitable to adopt a child.

Cynllun asesu darpar fabwysiadydd

29. Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi cynllun ysgrifenedig gan ymgynghori â'r darpar fabwysiadydd ("cynllun asesu'r darpar fabwysiadydd") sy'n cynnwys y materion canlynol—

- (a) y weithdrefn ar gyfer asesu addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn,
- (b) unrhyw amserlenni cymwys;
- (c) y trefniadau i'r darpar fabwysiadydd gael unrhyw gwnsela ychwanegol neu baratoad ychwanegol ar gyfer mabwysiadu,
- (ch) manylion unrhyw hyfforddiant y mae'r darpar fabwysiadydd wedi cytuno i ymgymryd ag ef,
- (d) gwybodaeth am rôl y darpar fabwysiadydd yn y broses asesu,
- (dd) gwybodaeth am y broses ar gyfer cyflwyno sylwadau neu wneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad o dan reoliad 30B(5)(c), ac
- (e) unrhyw faterion eraill y mae'r asiantaeth yn ystyried eu bod yn berthnasol.

Adroddiad darpar fabwysiadydd

30.—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael yr wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a bennir yn Rhan 3 o Atodlen 4.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi adroddiad ysgrifenedig ("adroddiad y darpar fabwysiadydd") sy'n cynnwys—

- (a) yr wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a theulu'r darpar fabwysiadydd a bennir yn Rhannau 1 a 3 o Atodlen 4,
- (b) crynodeb, wedi'i ysgrifennu gan ymarferydd iechyd cofrestredig yr asiantaeth, o gyflwr iechyd y darpar fabwysiadydd,
- (c) unrhyw wybodaeth berthnasol a gafwyd gan yr asiantaeth o dan reoliad 26(d),
- (ch) unrhyw sylwadau gan yr asiantaeth ar y materion y cyfeirir atynt yn rheoliadau 24 a 25,
- (d) asesiad yr asiantaeth o addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn, ac

Prospective adopter assessment plan

29. The adoption agency must prepare a written plan in consultation with the prospective adopter ("the prospective adopter assessment plan") which includes the following matters—

- (a) the procedure for assessing the prospective adopter's suitability to adopt a child,
- (b) any applicable timescales,
- (c) the arrangements for the prospective adopter to receive any additional counselling or preparation for adoption,
- (d) details of any training that the prospective adopter has agreed to undertake,
- (e) information about the role of the prospective adopter in the assessment process,
- (f) information about the process for submitting representations or applying to the Welsh Ministers for a review under regulation 30B(5)(c), and
- (g) any other matters which the agency considers relevant.

Prospective adopter's report

30.—(1) The adoption agency must obtain the information about the prospective adopter which is specified in Part 3 of Schedule 4.

(2) The adoption agency must prepare a written report ("the prospective adopter's report") which includes—

- (a) the information about the prospective adopter and the prospective adopter's family which is specified in Parts 1 and 3 of Schedule 4,
- (b) a summary, written by the agency's registered health practitioner, of the state of health of the prospective adopter,
- (c) any relevant information obtained by the agency under regulation 26(e);
- (d) any observations of the agency on the matters referred to in regulations 24 and 25,
- (e) the agency's assessment of the prospective adopter's suitability to adopt a child, and

(dd) unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei bod yn berthnasol.

(3) Mewn achos adran 83, rhaid i adroddiad y darpar fabwysiadydd hefyd gynnwys—

- (a) enw'r wlad y mae'r darpar fabwysiadydd yn dymuno mabwysiadu plentyn ohoni ("y wlad tarddiad"),
- (b) cadarnhad bod y darpar fabwysiadydd yn bodloni'r gofynion cymhwysra i fabwysiadu plentyn o'r wlad tarddiad,
- (c) unrhyw wybodaeth ychwanegol a gafwyd o ganlyniad i ofynion y wlad tarddiad, ac
- (ch) asesiad yr asiantaeth o addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn sy'n preswyllo'n arferol y tu allan i Ynysoedd Prydain.

(4) Pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn cael gwybodaeth o dan baragraff (1) neu wybodaeth arall mewn perthynas ag asesu'r darpar fabwysiadydd sy'n arwain at y farn bod y darpar fabwysiadydd yn annhebygol o gael ei ystyried yn addas i fabwysiadu plentyn, caiff baratoi adroddiad y darpar fabwysiadydd o dan baragraff (2) er gwaethaf, o bosibl, nad yw'r asiantaeth wedi cael yr holl wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a all fod yn ofynnol gan y rheoliad hwn.

(5) Pan yw'r asiantaeth fabwysiadu wedi paratoi adroddiad y darpar fabwysiadydd, rhaid i'r asiantaeth—

- (a) hysbysu'r darpar fabwysiadydd bod cais y darpar fabwysiadydd i'w atgyfeirio at y panel mabwysiadu,
- (b) rhoi copi o adroddiad y darpar fabwysiadydd i'r darpar fabwysiadydd,
- (c) gwahodd y darpar fabwysiadydd i anfon unrhyw sylwadau yn ysgrifenedig at yr asiantaeth o fewn 10 niwrnod gwaith, sy'n dechrau â'r dyddiad y daw'r hysbysiad i law, ac
- (ch) esbonio i'r darpar fabwysiadydd y caiff yr asiantaeth fabwysiadu, o dan amgylchiadau eithriadol, estyn yr amserlen y cyfeirir ati yn is-baragraff (c).

(6) Ar ddiwedd y cyfnod o 10 niwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (5)(c) (neu, pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn estyn yr amserlen honno, cyn gynted â phosibl ar ôl i sylwadau'r darpar fabwysiadydd ddod i law), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gyflwyno i'r panel mabwysiadu—

(f) any other information which the agency considers relevant.

(3) In a section 83 case, the prospective adopter's report must also include—

- (a) the name of the country from which the prospective adopter wishes to adopt a child ("country of origin"),
- (b) confirmation that the prospective adopter meets the eligibility requirements to adopt a child from the country of origin,
- (c) any additional information obtained as a consequence of the requirements of the country of origin, and
- (d) the agency's assessment of the prospective adopter's suitability to adopt a child who is habitually resident outside the British Islands.

(4) Where the adoption agency receives information under paragraph (1) or other information in relation to the assessment of the prospective adopter which leads to the opinion that the prospective adopter is unlikely to be considered suitable to adopt a child, it may prepare the prospective adopter's report under paragraph (2) notwithstanding that the agency may not have received all the information about the prospective adopter which may be required by this regulation.

(5) When the adoption agency has prepared the prospective adopter's report, the agency must—

- (a) notify the prospective adopter that the prospective adopter's application is to be referred to the adoption panel,
- (b) give the prospective adopter a copy of the prospective adopter's report,
- (c) invite the prospective adopter to send any observations in writing to the agency within 10 working days, beginning with the date on which the notification is received, and
- (d) explain to the prospective adopter that the adoption agency may, in exceptional circumstances, extend the timescale referred to in sub-paragraph (c).

(6) At the end of the 10 working days referred to in paragraph (5)(c) (or, where that timescale is extended by the adoption agency, as soon as possible after the prospective adopter's observations are received) the adoption agency must submit to the adoption panel—

- (a) adroddiad y darpar fabwysiad ydd a sylwadau'r darpar fabwysiad ydd,
- (b) yr adroddiadau ysgrifenedig a'r geiradaon y cyfeirir atynt yn rheoliad 26(b) i (d) (ond yn achos adroddiadau a gafwyd yn unol â rheoliad 26(b), dim ond os yw ymarferydd iechyd cofrestredig yr asiantaeth yn ei chynghori i wneud hynny), ac
- (c) unrhyw wybodaeth berthnasol arall a gafwyd gan yr asiantaeth.

(7) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n ofynnol gan y panel mabwysiadu ac anfon yr wybodaeth honno at y panel.

Swyddogaethau'r panel mabwysiadu

30A.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), rhaid i'r panel mabwysiadu ystyried achos y darpar fabwysiad ydd a gaiff ei atgyfeirio ato gan yr asiantaeth fabwysiadu a gwneud argymhelliad i'r asiantaeth o ran a yw'r darpar fabwysiad ydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

(2) Wrth ystyried pa argymhelliad i'w wneud, o ran y panel mabwysiadu—

- (a) rhaid iddo bwysu a mesur a chymryd i ystyriaeth yr holl wybodaeth ac adroddiadau a ddaeth iddo yn unol â rheoliad 30(6),
- (b) caiff ofyn i'r asiantaeth fabwysiadu gael unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r panel yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, ac
- (c) rhaid iddo gael y cyngor cyfreithiol y mae'n ystyried ei fod yn angenrheidiol mewn perthynas â'r achos.

(3) Mewn perthynas ag achos darpar fabwysiad ydd y mae adroddiad wedi'i baratoi mewn cysylltiad ag ef yn unol â rheoliad 30(4), rhaid i'r panel mabwysiadu naill ai—

- (a) gofyn i'r asiantaeth mabwysiadu baratoi adroddiad darpar fabwysiad ydd pellach, gan gwmpasu'r holl faterion a nodir yn rheoliad 30(2), neu
- (b) argymhell nad yw'r darpar fabwysiad ydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

- (a) the prospective adopter's report and the prospective adopter's observations,
- (b) the written reports and references referred to in regulation 26(b) to (e) (but in the case of reports obtained in accordance with regulation 26(b), only if the agency's registered health practitioner advises it to do so), and
- (c) any other relevant information obtained by the agency.

(7) The adoption agency must obtain, so far as is reasonably practicable, any other relevant information which may be required by the adoption panel and send that information to the panel.

Functions of the adoption panel

30A.—(1) Subject to paragraphs (2) and (3), the adoption panel must consider the case of the prospective adopter referred to it by the adoption agency and make a recommendation to the agency as to whether the prospective adopter is suitable to adopt a child.

(2) In considering what recommendation to make the adoption panel—

- (a) must consider and take into account all the information and reports passed to it in accordance with regulation 30(6),
- (b) may request the adoption agency to obtain any other relevant information which the panel considers necessary, and
- (c) must obtain legal advice as it considers necessary in relation to the case.

(3) In relation to the case of a prospective adopter in respect of whom a report has been prepared in accordance with regulation 30(4), the adoption panel must either—

- (a) request the adoption agency to prepare a further prospective adopter's report, covering all the matters set out in regulation 30(2), or
- (b) recommend that the prospective adopter is not suitable to adopt a child.

(4) Pan fo’r panel mabwysiadu yn gwneud argymhelliad i’r asiantaeth fabwysiadu fod y darpar fabwysiadu yn addas i fabwysiadu plentyn, caiff y panel hefyd ystyried a rhoi cyngor i’r asiantaeth am nifer y plant y gall y darpar fabwysiadu fod yn addas i’w mabwysiadu, ystod eu hoedran, eu rhyw a’u hanghenion tebygol.

(5) Cyn gwneud unrhyw argymhelliad, rhaid i’r panel mabwysiadu wahodd y darpar fabwysiadu i fynychu cyfarfod o’r panel.

Penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu

30B.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i’r asiantaeth fabwysiadu benderfynu a yw’r darpar fabwysiadu yn addas i fabwysiadu plentyn o fewn pedwar mis i’r dyddiad y cafodd yr asiantaeth hysbysiad y darpar fabwysiadu ei fod yn dymuno bwrw ymlaen â’r broses asesu.

(2) Caiff yr asiantaeth fabwysiadu oedi gwneud y penderfyniad o dan baragraff (1)—

- (a) mewn achos pan fo’r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried bod amgylchiadau eithriadol sy’n golygu na all wneud y penderfyniad o fewn yr amser hwnnw, neu
- (b) ar gais y darpar fabwysiadu.

(3) Ni chaiff unrhyw aelod o’r panel mabwysiadu gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad a wneir gan yr asiantaeth fabwysiadu o dan baragraff (1).

(4) Pan fo’r asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu cymeradwyo’r darpar fabwysiadu fel rhywun addas i fabwysiadu plentyn, rhaid iddi hysbysu’r darpar fabwysiadu o’i phenderfyniad.

(5) Pan fo’r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried nad yw’r darpar fabwysiadu yn addas i fabwysiadu plentyn, rhaid iddi—

- (a) hysbysu’r darpar fabwysiadu nad yw’n bwriadu cymeradwyo’r darpar fabwysiadu fel rhywun addas i fabwysiadu plentyn (“dyfarniad o gymhwyster”),
- (b) anfon gyda’r hysbysiad hwnnw ei rhesymau ynghyd â chopi o argymhelliad y panel mabwysiadu os yw’r argymhelliad hwnnw yn wahanol, ac

(4) Where the adoption panel makes a recommendation to the adoption agency that the prospective adopter is suitable to adopt a child, the panel may also consider and give advice to the agency about the number of children the prospective adopter may be suitable to adopt, their age range, sex and likely needs.

(5) Before making any recommendation, the adoption panel must invite the prospective adopter to attend a meeting of the panel.

Adoption agency decision and notification

30B.—(1) Subject to paragraph (2), the adoption agency must decide whether the prospective adopter is suitable to adopt a child within four months of the date on which the agency received the prospective adopter's notification that they wish to proceed with the assessment process.

(2) The adoption agency may delay making the decision under paragraph (1)—

- (a) in a case where the adoption agency considers there are exceptional circumstances which mean it cannot make the decision within that time, or
- (b) upon the request of the prospective adopter.

(3) No member of the adoption panel may take part in any decision made by the adoption agency under paragraph (1).

(4) Where the adoption agency decides to approve the prospective adopter as suitable to adopt a child, it must notify the prospective adopter of its decision.

(5) Where the adoption agency considers that the prospective adopter is not suitable to adopt a child, it must—

- (a) notify the prospective adopter that it proposes not to approve the prospective adopter as suitable to adopt a child (“qualifying determination”),
- (b) send with that notification its reasons together with a copy of the recommendation of the adoption panel if that recommendation is different, and

(c) cynghori'r darpar fabwysiad ydych chi caiff y darpar fabwysiad, o fewn 40 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad—

(i) cyflwyno unrhyw sylwadau y mae'r darpar fabwysiad yn dymuno eu gwneud i'r asiantaeth, neu

(ii) gwneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol o'r dyfarniad o gymhwyster.

(6) Os nad yw'r darpar fabwysiad, o fewn y cyfnod o 40 niwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (5)(c), wedi cyflwyno unrhyw sylwadau nac wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu fwrw ymlaen i wneud ei phenderfyniad a hysbysu'r darpar fabwysiad o'i phenderfyniad ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(7) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu, o fewn y cyfnod o 40 niwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (5)(c), yn cael sylwadau gan y darpar fabwysiad, caiff atgyfeirio'r achos ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol at y panel mabwysiadu ar gyfer ystyriaeth bellach.

(8) Rhaid i'r panel mabwysiadu ystyried unrhyw achos a atgyfeirir ato o dan baragraff (7) a gwneud argymhelliad newydd i'r asiantaeth fabwysiadu o ran a yw'r darpar fabwysiad yn addas i fabwysiadu plentyn.

(9) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu wneud penderfyniad ar yr achos ond—

(a) os yw'r achos wedi'i atgyfeirio i'r panel mabwysiadu o dan baragraff (7), dim ond ar ôl ystyried argymhellion y panel mabwysiadu o dan baragraff (8) a rheoliad 30A y caiff yr asiantaeth wneud y penderfyniad, neu

(b) os yw'r darpar fabwysiad wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol o'r dyfarniad o gymhwyster, dim ond ar ôl ystyried argymhelliad y panel adolygu annibynnol ac argymhelliad y panel mabwysiadu a wnaed o dan reoliad 30A y caiff yr asiantaeth wneud y penderfyniad.

(c) advise the prospective adopter that within 40 working days beginning with the date on which the notification was sent the prospective adopter may—

(i) submit any representations the prospective adopter wishes to make to the agency, or

(ii) apply to the Welsh Ministers for a review by an independent review panel of the qualifying determination.

(6) If, within the period of 40 working days referred to in paragraph (5)(c), the prospective adopter has not made any representations or applied to the Welsh Ministers for a review by an independent review panel, the adoption agency must proceed to make its decision and notify the prospective adopter of its decision together with reasons for that decision.

(7) If, within the period of 40 working days referred to in paragraph (5)(c), the adoption agency receives representations from the prospective adopter, it may refer the case together with all relevant information to the adoption panel for further consideration.

(8) The adoption panel must consider any case referred to it under paragraph (7) and make a new recommendation to the adoption agency as to whether the prospective adopter is suitable to adopt a child.

(9) The adoption agency must make a decision on the case but—

(a) if the case has been referred to the adoption panel under paragraph (7), the agency must make the decision only after taking into account the recommendations of the adoption panel under both paragraph (8) and regulation 30A, or

(b) if the prospective adopter has applied to the Welsh Ministers for a review by an independent review panel of the qualifying determination, the agency must make the decision only after taking into account the recommendation of the independent review panel and the recommendation of the adoption panel made under regulation 30A.

(10) Cyn gynted â phosibl ar ôl gwneud ei phenderfyniad o dan baragraff (9), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r darpar fabwysiadydd o'i phenderfyniad, gan ddatgan ei rhesymau dros y penderfyniad hwnnw os yw'n ystyried nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn, ac o argymhelliad y panel mabwysiadu o dan baragraff (8), os yw hwn yn wahanol i benderfyniad yr asiantaeth.

(11) Mewn achos pan fo panel adolygu annibynnol wedi gwneud argymhelliad, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu anfon copi o'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (10) at Weinidogion Cymru.

Gwybodaeth sydd i'w hanfon at y panel adolygu annibynnol

30C.—(1) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu yn cael hysbysiad gan Weinidogion Cymru fod darpar fabwysiadydd wedi gwneud cais am adolygiad gan banel adolygu annibynnol o ddyfarniad o gymhwyster, rhaid i'r asiantaeth, o fewn 10 niwrnod gwaith i gael yr hysbysiad hwnnw, anfon yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (2) at Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i phennu at ddibenion paragraff (1)—

- (a) yr holl ddogfennau a gwybodaeth a gyflwynwyd i'r panel mabwysiadu yn unol â rheoliad 30,
- (b) unrhyw adroddiadau eraill neu wybodaeth arall a gyflwynwyd gan yr asiantaeth fabwysiadu i'r panel mabwysiadu gan gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r darpar fabwysiadydd a gafwyd gan yr asiantaeth ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd y dogfennau a'r wybodaeth y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) i'r panel mabwysiadu, ac
- (c) y dogfennau y cyfeirir atynt yn rheoliad 30B(5)(a) a (b).

Adolygu a therfynu cymeradwyaeth

30CH.—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu adolygu cymeradwyaeth pob darpar fabwysiadydd yn unol â'r rheoliad hwn, oni bai—

- (a) bod plentyn wedi'i leoli ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd neu fod yr asiantaeth yn ystyried lleoli plentyn gyda'r darpar fabwysiadydd yn unol â rheoliadau 32 i 34, neu

(10) As soon as possible after making its decision under paragraph (9), the adoption agency must notify the prospective adopter of its decision, stating its reasons for that decision if they do not consider the prospective adopter suitable to adopt a child, and of the adoption panel's recommendation under paragraph (8), if this is different from the agency's decision.

(11) In a case where an independent review panel has made a recommendation, the adoption agency must send to the Welsh Ministers a copy of the notification referred to in paragraph (10).

Information to be sent to the independent review panel

30C.—(1) If the adoption agency receives notification from the Welsh Ministers that a prospective adopter has applied for a review by an independent review panel of a qualifying determination, the agency must, within 10 working days of receipt of that notification, send to the Welsh Ministers the information specified in paragraph (2).

(2) The following information is specified for the purposes of paragraph (1)—

- (a) all of the documents and information which were submitted to the adoption panel in accordance with regulation 30,
- (b) any other reports or information submitted by the adoption agency to the adoption panel including any relevant information in relation to the prospective adopter which was obtained by the agency after the date on which the documents and information referred to in subparagraph (a) were submitted to the adoption panel, and
- (c) the documents referred to in regulation 30B(5)(a) and (b).

Review and termination of approval

30D.—(1) The adoption agency must review the approval of each prospective adopter in accordance with this regulation, unless—

- (a) a child is placed for adoption with the prospective adopter or the agency is considering placing a child with the prospective adopter in accordance with regulations 32 to 34, or

- (b) mewn achos adran 83, fod y darpar fabwysiadydd wedi ymweld â'r plentyn yn y wlad y mae'r plentyn yn preswylion arferol ynddi ac wedi cadarnhau'n ysgrifenedig ei fod yn dymuno bwrw ymlaen â'r mabwysiadu.
- (2) Rhaid cynnal adolygiad o fewn blwyddyn ar ôl cael y gymeradwyaeth fan bellaf, ac ar ôl hynny pa bryd bynnag y mae'r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, ond o leiaf unwaith y flwyddyn.
- (3) Wrth ymgymryd ag adolygiad o'r fath, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu—
- (a) gwneud unrhyw ymholiadau a chael unrhyw wybodaeth y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn adolygu a yw'r darpar fabwysiadydd yn parhau i fod yn addas i fabwysiadu plentyn, a
- (b) ceisio ac ystyried barn y darpar fabwysiadydd.
- (4) Fel rhan o bob adolygiad, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ystyried—
- (a) pam nad oes plentyn wedi'i leoli gyda'r darpar fabwysiadydd eto,
- (b) unrhyw drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu ac a ddylent barhau neu gael eu haddasu,
- (c) pan ddychwelir plentyn sydd wedi'i leoli gyda'r darpar fabwysiadydd i'r asiantaeth fabwysiadu yn unol ag adran 35(1) neu (2) o'r Ddeddf, y rhesymau dros ddychwelyd y plentyn, ac
- (ch) a yw'r darpar fabwysiadydd yn parhau i fod yn addas i fabwysiadu plentyn.
- (5) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu—
- (a) nodi'n ysgrifenedig y trefniadau sy'n llywodraethu'r dull y mae'r adolygiad o ddarpar fabwysiadydd i'w gynnal a rhaid iddi ddwyn y trefniadau ysgrifenedig i sylw—
- (i) y darpar fabwysiadydd, a
- (ii) unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn berthnasol;
- (b) sicrhau bod—
- (i) yr wybodaeth a gafwyd mewn cysylltiad â'r darpar fabwysiadydd,
- (b) in a section 83 case, the prospective adopter has visited the child in the country in which the child is habitually resident and has confirmed in writing that they wish to proceed with the adoption.
- (2) A review must take place not more than one year after approval and thereafter whenever the adoption agency considers it necessary, but at intervals of not more than one year.
- (3) When undertaking such a review the adoption agency must—
- (a) make such enquiries and obtain such information as it considers necessary in order to review whether the prospective adopter continues to be suitable to adopt a child, and
- (b) seek and take into account the views of the prospective adopter.
- (4) As part of each review, the adoption agency must consider—
- (a) why no child has yet been placed with the prospective adopter,
- (b) any arrangements for the provision of adoption support services and whether they should continue or be modified,
- (c) where a child placed for adoption with the prospective adopter is returned to the adoption agency in accordance with section 35(1) or (2) of the Act, the reasons for the child's return, and
- (d) whether the prospective adopter is still suitable to adopt a child.
- (5) The adoption agency must—
- (a) set out in writing the arrangements governing the manner in which the review of a prospective adopter is to be carried out and must draw the written arrangements to the attention of—
- (i) the prospective adopter, and
- (ii) any other person the agency considers relevant;
- (b) ensure that—
- (i) the information obtained in respect of the prospective adopter,

- (ii) manylion y trafodion mewn unrhyw gyfarfod a drefnwyd gan yr asiantaeth i ystyried unrhyw agwedd ar yr adolygiad, a
 - (iii) manylion unrhyw benderfyniad a wnaed yng nghwrs yr adolygiad neu o ganlyniad i'r adolygiad,
- yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig a'u rhoi yng nghofnod achos y darpar fabwysiadydd.

(6) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu, ar ddiwedd yr adolygiad, yn ystyried na all y darpar fabwysiadydd fod yn addas mwyach i fabwysiadu plentyn, rhaid iddi—

- (a) paratoi adroddiad ysgrifenedig (“adroddiad adolygu'r darpar fabwysiadydd”) sy'n cynnwys—
 - (i) yr wybodaeth a gafwyd am y materion y cyfeirir atynt ym mharagraffau (3) a (4),
 - (ii) rhesymau'r asiantaeth, a
 - (iii) unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei bod yn berthnasol,
- (b) hysbysu'r darpar fabwysiadydd bod yr achos i'w atgyfeirio at y panel mabwysiadu, ac
- (c) rhoi copi o'r adroddiad i'r darpar fabwysiadydd a gwahodd y darpar fabwysiadydd i anfon unrhyw sylwadau at yr asiantaeth o fewn 10 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddir yr adroddiad hwnnw i'r darpar fabwysiadydd.

(7) Ar ddiwedd y cyfnod o 10 niwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (6)(c) (neu'n gynharach os daw sylwadau'r darpar fabwysiadydd i law cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu anfon adroddiad adolygu'r darpar fabwysiadydd, ynghyd â sylwadau'r darpar fabwysiadydd, os oes rhai, at y panel mabwysiadu.

(8) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n ofynnol gan y panel mabwysiadu ac anfon yr wybodaeth honno at y panel.

- (ii) details of the proceedings at any meeting arranged by the agency to consider any aspect of the review, and
- (iii) details of any decision made in the course of or as a result of the review,

are recorded in writing and placed on the prospective adopter's case record.

(6) If, at the conclusion of the review, the adoption agency considers that the prospective adopter may no longer be suitable to adopt a child, it must—

- (a) prepare a written report (“the prospective adopter's review report”) which includes—
 - (i) the information obtained on the matters referred to in paragraphs (3) and (4),
 - (ii) the agency's reasons, and
 - (iii) any other information which the agency considers relevant,
- (b) notify the prospective adopter that the case is to be referred to the adoption panel, and
- (c) give the prospective adopter a copy of the report and invite the prospective adopter to send any observations to the agency within 10 working days beginning with the date on which that report is given to the prospective adopter.

(7) At the end of the period of 10 working days referred to in paragraph (6)(c) (or earlier if the prospective adopter's comments are received before that period has expired), the adoption agency must send the prospective adopter's review report together with the prospective adopter's observations, if any, to the adoption panel.

(8) The adoption agency must obtain, so far as is reasonably practicable, any other relevant information which may be required by the adoption panel and send that information to the panel.

(9) Rhaid i'r panel mabwysiadu ystyried adroddiad adolygu'r darpar fabwysiadydd, sylwadau'r darpar fabwysiadydd, os oes rhai, ac unrhyw wybodaeth arall a roddir iddo gan yr asiantaeth fabwysiadu a gwneud argymhelliad i'r asiantaeth o ran a yw'r darpar fabwysiadydd yn parhau i fod yn addas i fabwysiadu plentyn.

(10) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu wneud penderfyniad o ran a yw'r darpar fabwysiadydd yn parhau i fod yn addas i fabwysiadu plentyn ac mae rheoliad 30B(2) i (11) yn gymwys mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw gan yr asiantaeth.

Dyletswyddau'r asiantaeth fabwysiadu mewn achos adran 83

30D. Pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu mewn achos adran 83 gymeradwyo darpar fabwysiadydd fel rhywun addas i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth anfon at Weinidogion Cymru—

- (a) cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad ac unrhyw argymhelliad y mae'r asiantaeth yn ei wneud mewn perthynas â nifer y plant y gall y darpar fabwysiadydd fod yn addas i'w mabwysiadu, ystod eu hoedran, eu rhyw, eu hanghenion tebygol a'u cefndir,
- (b) yr holl ddogfennau a gwybodaeth a roddwyd i'r panel mabwysiadu yn unol â rheoliad 30,
- (c) cofnod trafodion y panel mabwysiadu, ei argymhelliad a'r rhesymau dros ei argymhelliad,
- (ch) os gwnaeth y darpar fabwysiadydd gais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol o ddyfarniad o gymhwyster, gofnod trafodion y panel hwnnw, ei argymhelliad a'r rhesymau dros ei argymhelliad, a
- (d) unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r achos y mae Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod tramor perthnasol yn ei gwneud yn ofynnol.

Cymhwyso Rhan 4 gydag addasiadau i bersonau penodedig

30DD.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r asiantaeth fabwysiadu wedi'i bodloni bod y darpar fabwysiadydd—

- (a) yn rhiant maeth a gymeradwywyd, neu

(9) The adoption panel must consider the prospective adopter's review report, the prospective adopter's observations, if any, and any other information passed to it by the adoption agency and make a recommendation to the agency as to whether the prospective adopter continues to be suitable to adopt a child.

(10) The adoption agency must make a decision as to whether the prospective adopter continues to be suitable to adopt a child and regulation 30B(2) to (11) apply in relation to that decision by the agency.

Duties of the adoption agency in a section 83 case

30E. Where the adoption agency decides in a section 83 case to approve a prospective adopter as suitable to adopt a child, the agency must send the Welsh Ministers—

- (a) written confirmation of the decision and any recommendation the agency may make in relation to the number of children the prospective adopter may be suitable to adopt, their age range, sex, likely needs and background,
- (b) all the documents and information which were passed to the adoption panel in accordance with regulation 30,
- (c) the record of the proceedings of the adoption panel, its recommendation and the reasons for its recommendation,
- (d) if the prospective adopter applied to the Welsh Ministers for a review by an independent review panel of a qualifying determination, the record of the proceedings of that panel, its recommendation and the reasons for its recommendation, and
- (e) any other information relating to the case which the Welsh Ministers or the relevant foreign authority may require.

Application of Part 4 with modifications to specified persons

30F.—(1) This paragraph applies where the adoption agency is satisfied that the prospective adopter—

- (a) is an approved foster parent, or

(b) wedi mabwysiadu plentyn, ar unrhyw adeg—

- (i) yng Nghymru a Lloegr, ar ôl cael ei asesu'n addas i fabwysiadu yn unol â'r Rheoliadau hyn neu Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 2005(1), neu
- (ii) ar ôl cael ei asesu'n addas i fabwysiadu yn unol â Rheoliadau Mabwysiadu ag Efen Dramor 2005(2) ("Rheoliadau 2005").

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, mae Rhan 4 yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r addasiadau a nodir yn Atodlen 4A.

(3) Pan fo'r darpar fabwysiadwydd yn rhiant maeth a gymeradwywyd ac yn cydsynio, caiff yr asiantaeth fabwysiadu ofyn am gael mynediad at unrhyw gofnodion perthnasol a luniwyd mewn perthynas â'r gymeradwyaeth honno gan y darparwr gwasanaethau maethu.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "rhiant maeth a gymeradwywyd" yw person sydd wedi'i gymeradwyo fel rhiant maeth yn unol â Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018(3) ond nid yw'n cynnwys person y mae plentyn wedi'i leoli gydag ef o dan reoliad 26 (cymeradwyo dros dro berthynas, cyfaill neu berson arall sydd â chysylltiad ag C) neu 28 (cymeradwyo dros dro darpar fabwysiadwydd penodol fel rhiant maeth) o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015(4).

Atgyfeirio at Gofrestr Fabwysiadu Cymru – darpar fabwysiadwyr

30E.—(1) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ddarparu manylion am y darpar fabwysiadwydd i'r sefydliad sy'n cynnal Cofrestr Fabwysiadu Cymru i'w cofnodi yn y gofrestr cyn gynted â phosibl a beth bynnag dim hwyrach nag un mis ar ôl y penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(a).

(b) has, at any time, adopted a child—

- (i) in England and Wales, after having been assessed as suitable to adopt in accordance with these Regulations or the Adoption Agencies Regulations 2005(1), or
- (ii) after having been assessed as suitable to adopt in accordance with the Adoptions with a Foreign Element Regulations 2005(2) ("the 2005 Regulations").

(2) Where paragraph (1) applies Part 4 has effect subject to the modifications set out in Schedule 4A.

(3) Where the prospective adopter is an approved foster parent and consents, the adoption agency may request access to any relevant records compiled in relation to that approval by the fostering services provider.

(4) In this regulation, "approved foster parent" means a person who is approved as a foster parent in accordance with the Fostering Panels (Establishment and Functions) (Wales) Regulations 2018(3) but does not include a person with whom a child is placed under regulation 26 (temporary approval of a relative, friend or other person connected with C) or 28 (temporary approval of a particular prospective adopter as a foster parent) of the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015(4).

Referral to the Adoption Register for Wales – prospective adopters

30G.—(1) Where paragraph (2) applies, the adoption agency must provide details about the prospective adopter to the organisation which maintains the Adoption Register for Wales for entry in the register as soon as possible and in any event no later than one month after the determination referred to in paragraph (2)(a).

(1) O.S. 2005/389, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3482, O.S. 2017/52 (Cy. 23) a chan ddarpariaethau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2005/392, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3482, O.S. 2009/2563, O.S. 2010/1172, O.S. 2012/1410, O.S. 2013/235, O.S. 2013/985 ac O.S. 2014/2103.

(3) O.S. 2018/1333 (Cy. 260).

(4) O.S. 2015/1818 (Cy. 261), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/52 (Cy. 23), O.S. 2017/713 (Cy. 170), O.S. 2018/48 (Cy. 15), O.S. 2018/111 (Cy. 26) ac O.S. 2019/237 (Cy. 56).

(1) S.I. 2005/389, amended by S.I. 2005/3482, S.I. 2017/52 (W. 23) and by other provisions which are not relevant to these Regulations,

(2) S.I. 2005/392, amended by S.I. 2005/3482, S.I. 2009/2563, S.I. 2010/1172, S.I. 2012/1410, S.I. 2013/235, S.I. 2013/985 and S.I. 2014/2103.

(3) S.I. 2018/1333 (W. 260).

(4) S.I. 2015/1818 (W. 261), amended by S.I. 2017/52 (W. 23), S.I. 2017/713 (W. 170), S.I. 2018/48 (W. 15), S.I. 2018/111 (W. 26) and S.I. 2019/237 (W. 56).

(2) Ac eithrio mewn achos adran 83, mae'r paragraff hwn yn gymwys—

- (a) pan fo asiantaeth fabwysiadu, yn unol â rheoliad 30B, wedi penderfynu bod darpar fabwysiadu yn addas i fabwysiadu plentyn,
- (b) pan na fo'r asiantaeth wedi nodi plentyn penodol y mae'n ystyried ei leoli gyda'r darpar fabwysiadu hwnnw, ac
- (c) pan fo'r asiantaeth wedi cael cydsyniad y darpar fabwysiadu.

Cynllun paru darpar fabwysiadu

31. Ac eithrio mewn achos adran 83, pan fo asiantaeth fabwysiadu wedi cymeradwyo darpar fabwysiadu fel rhywun addas i fabwysiadu plentyn yn unol â rheoliad 30B, rhaid i'r asiantaeth baratoi cynllun ysgrifenedig gan ymgynghori â'r darpar fabwysiadu (“cynllun paru'r darpar fabwysiadu”) sy'n cynnwys—

- (a) gwybodaeth am ddyletswyddau'r asiantaeth fabwysiadu o dan Rannau 5 a 6,
- (b) gwybodaeth am rôl y darpar fabwysiadu o ran nodi plentyn y byddai'n fabwysiadu priodol ar ei gyfer,
- (c) gwybodaeth am y broses ar gyfer cyflwyno sylwadau (gan gynnwys cwyn) o dan Reoliadau 2014, ac
- (ch) unrhyw faterion eraill y mae'r asiantaeth yn ystyried eu bod yn berthnasol.”

11. Yn rheoliad 33(4) (swyddogaeth y panel mabwysiadu o ran lleoliad arfaethedig), yn lle “rheoliad 28” rhodder “rheoliad 30B”.

12. Yn rheoliad 43 (mynediad at gofnodion achos a datgelu gwybodaeth), ym mharagraff (1)—

- (a) ar ddiwedd is-baragraff (f), yn lle'r atalnod llawn rhodder “;”;
- (b) ar ôl is-baragraff (f) mewnosoder—
“(ff) i ddarparwr gwasanaethau maethu o fewn pymtheng niwrnod gwaith i gais o dan reoliad 7(2)(f) o Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018.”

(2) Other than in a section 83 case, this paragraph applies where—

- (a) an adoption agency has, in accordance with regulation 30B, determined that a prospective adopter is suitable to adopt a child,
- (b) the agency has not identified a particular child who it is considering placing with that prospective adopter, and
- (c) the agency has obtained the consent of the prospective adopter.

Prospective adopter matching plan

31. Except in a section 83 case, where an adoption agency has approved a prospective adopter as suitable to adopt a child in accordance with regulation 30B, the agency must prepare a written plan in consultation with the prospective adopter (“the prospective adopter matching plan”) which includes—

- (a) information about the duties of the adoption agency under Parts 5 and 6,
- (b) information about the role of the prospective adopter in identifying a child for whom they would be an appropriate adopter,
- (c) information about the process for making a representation (including a complaint) under the 2014 Regulations, and
- (d) any other matters that the agency considers relevant.”

11. In regulation 33(4) (function of the adoption panel in relation to the proposed placement), for “regulation 28” substitute “regulation 30B”.

12. In regulation 43 (access to case records and disclosure of information), in paragraph (1)—

- (a) at the end of sub-paragraph (h), for the full stop substitute “;”;
- (b) after sub-paragraph (h) insert—
“(i) to a fostering service provider within fifteen working days of a request under regulation 7(2)(f) of the Fostering Panels (Establishment and Functions) (Wales) Regulations 2018.”

13. Yn Atodlen 1—

- (a) yn Rhan 3 (gwybodaeth am deulu'r plentyn ac eraill), yn y pennawd cyn paragraff 1, yn lle “naturiol” rhodder “geni”;
- (b) yn Rhan 5 (manyllion ynghylch iechyd rhieni a brodyr a chwiorydd naturiol y plentyn)—
 - (i) ym mhennawd y Rhan, hegorer “naturiol” ac ar ôl “rhieni” mewnosoder “geni”;
 - (ii) ym mharagraffau 1, 2 a 3, yn lle “naturiol”, ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder “geni”.

14. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 (tramgwyddau a bennir at ddibenion rheoliad 23(3)(b))—

- (a) yn y pennawd, yn lle “Rheoliad 23(3)(b)” rhodder “Rheoliad 25(3)(b)”;
- (b) yn lle paragraffau 2 a 3 (tramgwyddau yn yr Alban) rhodder—

“2. Tramgwydd o dan adran 1 (treisio) ac adran 18 (treisio plentyn ifanc) o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol (Yr Alban) 2009(1).

3. Tramgwydd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995(2), ac eithrio mewn achos pan oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed ar adeg cyflawni'r tramgwydd.”

- (c) yn lle paragraffau 7 ac 8 (tramgwyddau yng Ngogledd Iwerddon) rhodder—

“7. Tramgwydd o dan Erthygl 5 (treisio) ac Erthygl 12 (treisio plentyn o dan 13 oed) o Orchymyn Tramgwyddau Rhywiol (Gogledd Iwerddon) 2008(3).

8. Tramgwydd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(4), ac eithrio yn yr achos pan oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed ar adeg cyflawni'r tramgwydd.” a

- (d) hegorer paragraff 10.

15. Yn lle Atodlen 4 rhodder—

13. In Schedule 1—

- (a) in Part 3 (information about the child's family and others), in the heading before paragraph 1, for “natural” substitute “birth”;
- (b) in Part 5 (particulars relating to the health of the child's natural parents and brothers and sisters)—
 - (i) in the Part heading, for “natural” substitute “birth”;
 - (ii) in paragraphs 1, 2 and 3, for “natural”, in each place it occurs, substitute “birth”.

14. In Part 1 of Schedule 3 (offences specified for the purposes of regulation 23(3)(b))—

- (a) in the heading, for “Regulation 23(3)(b)” substitute “Regulation 25(3)(b)”;
- (b) for paragraphs 2 and 3 (offences in Scotland) substitute—

“2. An offence under section 1 (rape) and section 18 (rape of a young child) of the Sexual Offences (Scotland) Act 2009(1).

3. An offence specified in Schedule 1 to the Criminal Procedure (Scotland) Act 1995(2) except, in a case where the offender was under the age of 20 at the time the offence was committed.”

- (c) for paragraphs 7 and 8 (offences in Northern Ireland) substitute—

“7. An offence under Article 5 (rape) and Article 12 (rape of a child under 13) of the Sexual Offences (Northern Ireland) Order 2008(3).

8. An offence specified in Schedule 1 to the Children and Young Persons Act (Northern Ireland) 1968(4), except in the case where the offender was under the age of 20 at the time the offence was committed.” and

- (d) omit paragraph 10.

15. For Schedule 4 substitute—

(1) 2009 dsa 9.
(2) 1995 p. 46.
(3) O.S. 2008/1769 (G.I. 2).
(4) 1968 p. 34.

(1) 2009 asp 9.
(2) 1995 c. 46.
(3) S.I. 2008/1769 (N.I. 2).
(4) 1968 c. 34.

“ATODLEN 4

RHAN 1 Rheoliad 26(a)

Gwybodaeth sydd i’w darparu yn ystod cam 1

Gwybodaeth am y darpar fabwysiad

1. Enw, rhyw, dyddiad a man geni a chyfeiriad gan gynnwys ardal yr awdurdod lleol.

2. Os yw’r darpar fabwysiad yn briod neu wedi ffurfio partneriaeth sifil ac os yw’n gwneud cais ar ei ben ei hun am asesiad o’i addasrwydd i fabwysiad, y rhesymau dros hyn.

3. Manylion unrhyw achosion blaenorol mewn llys teulu y bu’r darpar fabwysiad yn cymryd rhan ynddynt.

4. Enwau a chyfeiriadau tri chanolwr a fydd yn rhoi geirada personol am y darpar fabwysiad, na chaiff mwy nag un ohonynt fod yn berthynas iddo.

5. Enw a chyfeiriad ymarferydd meddygol cofrestredig y darpar fabwysiad—

6. O ran y darpar fabwysiad—

- (a) os yw’n briod, dyddiad a man y briodas;
- (b) os yw wedi ffurfio partneriaeth sifil, dyddiad a man cofrestru’r bartneriaeth honno;
- (c) os oes partner ganddo, manylion y berthynas honno.

7. Manylion unrhyw briodas, partneriaeth sifil neu berthynas flaenorol.

8. A yw’r darpar fabwysiad wedi ymgartrefu neu’n preswyllo’n arferol mewn rhan o Ynysoedd Prydain ac os yw’n preswyllo’n arferol, ers pa bryd.

Gwybodaeth am gartref etc. y darpar fabwysiad

9. Manylion aelodau eraill o aelwyd y darpar fabwysiad (gan gynnwys unrhyw blant i’r darpar fabwysiad pa un a ydynt yn preswyllo ar yr aelwyd ai peidio).

“SCHEDULE 4

PART 1 Regulation 26(a)

Information to be provided during stage 1

Information about the prospective adopter

1. Name, sex, date and place of birth and address including the local authority area.

2. If the prospective adopter is married or has formed a civil partnership and is applying alone for an assessment of their suitability to adopt, the reasons for this.

3. Details of any previous family court proceedings in which the prospective adopter has been involved.

4. Names and addresses of three referees who will give personal references on the prospective adopter, not more than one of whom may be a relative.

5. Name and address of the prospective adopter’s registered medical practitioner.

6. If the prospective adopter—

- (a) is married, the date and place of the marriage;
- (b) has formed a civil partnership, the date and place of registration of that partnership;
- (c) has a partner, details of that relationship.

7. Details of any previous marriage, civil partnership or relationship.

8. Whether the prospective adopter is domiciled or habitually resident in a part of the British Islands and if habitually resident for how long they have been habitually resident.

Information about the home etc. of the prospective adopter

9. Details of other members of the prospective adopter’s household (including any children of the prospective adopter whether or not resident in the household).

RHAN 2 Rheoliad 26(b)

Adroddiad ar iechyd y darpar fabwysiadydd

1. Enw, dyddiad geni, rhyw, pwysau a thaldra.
2. Hanes iechyd teulu y rhieni, unrhyw frodyr a chwiorydd a phlant y darpar fabwysiadydd, gyda manylion unrhyw salwch corfforol neu salwch meddwl difrifol ac unrhyw glefyd neu anhwylder etifeddol.
3. Anffrwythlondeb neu resymau dros benderfynu peidio â chael plant (os yw'n gymwys).
4. Hanes iechyd yn y gorffennol, gan gynnwys manylion unrhyw salwch corfforol neu salwch meddwl difrifol, anabledd, damwain, derbyn i ysbyty neu fynd i adran cleifion allanol, ac ym mhob achos unrhyw driniaeth a roddwyd.
5. Hanes obstetrig (os yw'n gymwys).
6. Manylion unrhyw salwch presennol, gan gynnwys y driniaeth a'r prognosis.
7. Manylion unrhyw yfed alcohol a all beri pryder neu a yw'r darpar fabwysiadydd yn ysmegu neu'n defnyddio cyffuriau sy'n creu arferiad.
8. Unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried y gall gynorthwyo'r panel mabwysiadu a'r asiantaeth fabwysiadu.

RHAN 3 Rheoliad 30(1)

Gwybodaeth sydd i'w darparu yn ystod cam 2

Gwybodaeth am y darpar fabwysiadydd

1. Llun a disgrifiad corfforol.
2. Tarddiad hiliol a chefnidir diwylliannol ac ieithyddol.
3. Cred grefyddol.
4. Y berthynas â'r plentyn (os oes un).
5. Disgrifiad o bersonoliaeth a diddordebau'r darpar fabwysiadydd.

PART 2 Regulation 26(b)

Report on the health of the prospective adopter

1. Name, date of birth, sex, weight and height.
2. A family health history of the parents, any brothers and sisters and the children of the prospective adopter, with details of any serious physical or mental illness and any hereditary disease or disorder.
3. Infertility or reasons for deciding not to have children (if applicable).
4. Past health history, including details of any serious physical or mental illness, disability, accident, hospital admission or attendance at an out-patient department, and in each case any treatment given.
5. Obstetric history (if applicable).
6. Details of any present illness, including treatment and prognosis.
7. Details of any consumption of alcohol that may give cause for concern or whether the prospective adopter smokes or uses habit-forming drugs.
8. Any other relevant information which the adoption agency considers may assist the adoption panel and the adoption agency.

PART 3 Regulation 30(1)

Information to be provided during stage 2

Information about the prospective adopter

1. A photograph and physical description.
2. Racial origin and cultural and linguistic background.
3. Religious persuasion.
4. Relationship (if any) to the child.
5. A description of the prospective adopter's personality and interests.

6. Coeden deulu gyda manylion y darpar fabwysiadydd, brodyr a chwiorydd y darpar fabwysiadydd ac unrhyw blant y darpar fabwysiadydd, gyda'u hoedrannau (neu eu hoedrannau pan fuont farw).

7. Cronoleg o'r darpar fabwysiadydd ers ei eni.

8. Sylwadau'r darpar fabwysiadydd am ei brofiad ei hun o gael ei rianta a sut y mae hyn wedi dylanwadu arno.

9. Manylion unrhyw brofiad sydd gan y darpar fabwysiadydd o ofalu am blant (gan gynnwys fel rhiant, llys-riant, rhiant maeth, gwarchodwr plant neu ddarpar fabwysiadydd) ac asesiad o allu'r darpar fabwysiadydd yn hyn o beth.

10. Unrhyw wybodaeth arall sy'n dangos sut y mae'r darpar fabwysiadydd ac unrhyw un arall sy'n byw ar aelwyd y darpar fabwysiadydd yn debygol o ymwneud â phlentyn sydd wedi'i leoli ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd.

Y Teulu Ehangach

11. Disgrifiad o deulu ehangach y darpar fabwysiadydd a'u rôl a'u pwysigrwydd i'r darpar fabwysiadydd a'u rôl a'u pwysigrwydd tebygol i blentyn sydd wedi'i leoli ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd.

Gwybodaeth am gartref etc. y darpar fabwysiadydd

12. Gwybodaeth am gartref y darpar fabwysiadydd a'r gymdogaeth y mae'r darpar fabwysiadydd yn byw ynddi.

13. Gwybodaeth am gymuned leol y darpar fabwysiadydd, gan gynnwys i ba raddau y mae'r teulu wedi integreiddio â'i grwpiau cyfoedion, ei gyfeillgarwch a'i rwydweithiau cymdeithasol.

Addysg a chyflogaeth

14. Manylion hanes a chyraeddiadau addysgol y darpar fabwysiadydd a barn y darpar fabwysiadydd am sut y mae hyn wedi dylanwadu arno.

15. Manylion hanes cyflogaeth y darpar fabwysiadydd a sylwadau'r darpar fabwysiadydd am sut y mae hyn wedi dylanwadu arno.

6. A family tree with details of the prospective adopter, the prospective adopter's siblings and any children of the prospective adopter, with their ages (or ages at death).

7. A chronology of the prospective adopter from birth.

8. The observations of the prospective adopter about their own experience of being parented and how this has influenced them.

9. Details of any experience the prospective adopter has had of caring for children (including as a parent, step-parent, foster parent, child minder or prospective adopter) and an assessment of the prospective adopter's ability in this respect.

10. Any other information which indicates how the prospective adopter and anybody else living in the prospective adopter's household is likely to relate to a child placed for adoption with the prospective adopter.

Wider Family

11. A description of the wider family of the prospective adopter and their role and importance to the prospective adopter and their likely role and importance to a child placed for adoption with the prospective adopter.

Information about the home etc. of the prospective adopter

12. Information about the prospective adopter's home and the neighbourhood in which the prospective adopter lives.

13. Information about the local community of the prospective adopter, including the degree of the family's integration with its peer groups, friendships and social networks.

Education and employment

14. Details of the prospective adopter's educational history and attainments and the prospective adopter's views about how this has influenced them.

15. Details of the prospective adopter's employment history and the observations of the prospective adopter about how this has influenced them.

16. Cyflogaeth bresennol y darpar fabwysiadydd a barn y darpar fabwysiadydd am gyflawni cydbwysedd rhwng cyflogaeth a gofal plant.

Incwm

17. Manylion incwm a gwariant y darpar fabwysiadydd.

Gwybodaeth arall

18. Gwybodaeth am allu'r darpar fabwysiadydd i—

- (a) darparu ar gyfer anghenion plentyn, yn benodol anghenion emosiynol ac anghenion o ran datblygu ymddygiadol,
- (b) rhannu hanes plentyn a materion emosiynol cysylltiedig, ac
- (c) deall a chefnogi plentyn drwy deimladau posibl o golled a thrawma.

19. O ran y darpar fabwysiadydd—

- (a) ei resymau dros ddymuno mabwysiadu plentyn,
- (b) ei farn a'i deimladau am fabwysiadu a'i arwyddocâd,
- (c) ei farn am ei allu i rianta,
- (ch) ei farn am gyfrifoldeb rhiant a'r hyn y mae'n ei olygu,
- (d) ei farn am amgylchedd cartref addas i blentyn,
- (dd) ei farn am bwysigrwydd a gwerth addysg,
- (e) ei farn a'i deimladau am bwysigrwydd magwraeth grefyddol a diwylliannol plentyn, ac
- (f) ei farn a'i deimladau am gyswllt rhwng plentyn a'i rieni geni a pherthnasau eraill.

20. Barn aelodau eraill o aelwyd y darpar fabwysiadydd a'r teulu ehangach mewn perthynas â mabwysiadu.

21. Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai gynorthwyo'r panel mabwysiadu neu'r asiantaeth fabwysiadu.

16. The current employment of the prospective adopter and the prospective adopter's views about achieving a balance between employment and child care.

Income

17. Details of the prospective adopter's income and expenditure.

Other information

18. Information about the prospective adopter's capacity to—

- (a) provide for a child's needs, particularly emotional and behavioural development needs,
- (b) share a child's history and associated emotional issues, and
- (c) understand and support a child through possible feelings of loss and trauma.

19. The prospective adopter's—

- (a) reasons for wishing to adopt a child,
- (b) views and feelings about adoption and its significance,
- (c) views about their parenting capacity,
- (d) views about parental responsibility and what it means,
- (e) views about a suitable home environment for a child,
- (f) views about the importance and value of education,
- (g) views and feelings about the importance of a child's religious and cultural upbringing, and
- (h) views and feelings about contact between a child and his birth parents and other relatives.

20. The views of other members of the prospective adopter's household and wider family in relation to adoption.

21. Any other relevant information which might assist the adoption panel or the adoption agency.

ATODLEN 4A

Rheoliad 30DD(2)

Addasu Rhan 4

1. Nid yw rheoliad 22 yn gymwys.

2. Nid yw rheoliadau 24, 25 a 26 ond yn gymwys pan fo asiantaeth fabwysiadu yn ystyried eu bod yn angenrheidiol.

3. Nid yw rheoliadau 27 ac 28 yn gymwys.

4. Mae rheoliad 30 yn gymwys fel pe bai—

- (a) paragraffau (1) a (4) wedi'u hepgor,
- (b) y paragraff canlynol wedi'i roi yn lle paragraff (2)—

“(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi adroddiad ysgrifenedig (“adroddiad y darpar fabwysiadu”) sy'n cynnwys—

- (a) pan fo'n gymwys, grynodeb wedi'i ysgrifennu gan ymarferydd iechyd cofrestredig yr asiantaeth, o gyflwr iechyd y darpar fabwysiadu,
- (b) pan fo'n gymwys, unrhyw sylwadau gan yr asiantaeth am y materion y cyfeirir atynt yn rheoliad 25,
- (c) pan fo'n gymwys, unrhyw wybodaeth berthnasol a gafwyd gan yr asiantaeth o dan reoliad 26,
- (ch) asesiad yr asiantaeth o addasrwydd y darpar fabwysiadu i fabwysiadu plentyn, a
- (d) unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei bod yn berthnasol.”, ac

- (c) “pan fo'n gymwys” wedi'i fewnosod ar ddechrau paragraff (6)(b).

5. Nid yw rheoliad 30A(3) yn gymwys.

SCHEDULE 4A

Regulation 30F(2)

Modifications to Part 4

1. Regulation 22 does not apply.

2. Regulations 24, 25 and 26 only apply where an adoption agency considers it necessary.

3. Regulations 27 and 28 do not apply.

4. Regulation 30 applies as if—

- (a) paragraphs (1) and (4) were omitted,
- (b) for paragraph (2) there were substituted—

“(2) The adoption agency must prepare a written report (“the prospective adopter's report”) which includes—

- (a) where applicable, a summary, written by the agency's registered health practitioner, of the state of the health of the prospective adopter,
- (b) where applicable, any observations of the agency on the matters referred to in regulation 25,
- (c) where applicable, any relevant information obtained by the agency under regulation 26,
- (d) the agency's assessment of the prospective adopter's suitability to adopt a child, and
- (e) any other information which the agency considers relevant.”, and

- (c) “where applicable” were inserted at the beginning of paragraph (6)(b).

5. Regulation 30A(3) does not apply.

6. Mae rheoliad 30B yn gymwys fel pe bai'r paragraff canlynol wedi'i roi yn lle paragraff (1)—

“(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu benderfynu a yw'r darpar fabwysiad ydd yn addas i fabwysiadu plentyn o fewn pedwar mis i'r dyddiad y cafodd yr asiantaeth hysbysiad y darpar fabwysiad ydd ei fod yn dymuno bwrw ymlaen â'r broses cyn asesu.””

Diwygiadau canlyniadol i Reoliadau eraill

16. Mae'r diwygiadau i Reoliadau eraill wedi eu nodi yn Atodlen 1.

Diwygiadau amrywiol

17. Mae Atodlen 2 yn gwneud diwygiadau i destun Cymraeg y Prif Reoliadau(1).

Darpariaeth drosiannol

18. Mewn achos pan fo asiantaeth fabwysiadu wedi dechrau asesu addasrwydd darpar fabwysiad ydd yn unol â Rhan 4 o'r Prif Reoliadau, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu barhau â'r asesiad hwnnw fel pe na bai'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud.

6. Regulation 30B applies as if for paragraph (1) there were substituted—

“(1) The adoption agency must decide whether the prospective adopter is suitable to adopt a child within four months of the date on which the agency received the prospective adopter's notification that they wish to proceed with the pre-assessment process.””

Consequential amendments to other Regulations

16. The amendments to other Regulations are set out in Schedule 1.

Miscellaneous amendments

17. Schedule 2 makes amendments to the Welsh language text of the Principal Regulations(1).

Transitional provision

18. In a case where an adoption agency has started to assess the suitability of a prospective adopter in accordance with Part 4 of the Principal Regulations, prior to the coming into force of these Regulations, the adoption agency must continue that assessment as if these Regulations had not been made.

Julie Morgan

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion
Cymru
17 Chwefror 2020

Deputy Minister for Health and Social Services, under
authority of the Minister for Health and Social
Services, one of the Welsh Ministers

17 February 2020

(1) Mae'r diwygiadau yn Atodlen 2 i'r testun Cymraeg yn cyfateb i'r diwygiadau sydd wedi eu gwneud i destun Saesneg y Prif Reoliadau gan Orchymyn Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2009 (O.S. 2009/1892) a chan Orchymyn Gorchymyn Trefniadau Plentyn (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2014 (O.S. 2014/852).

(1) The amendments in Schedule 2 to the Welsh language text correspond to the amendments made to the English language text of the Principal Regulations by the Human Fertilisation and Embryology (Consequential Amendments and Transitional and Saving Provisions) Order 2009 (S.I. 2009/1892) and by the Child Arrangements Order (Consequential Amendments to Subordinate Legislation) Order 2014 (S.I. 2014/852).

Diwygiadau Canlyniadol i Reoliadau Eraill

Rheoliadau Mabwysiadau ag Elfen Dramor 2005

1.—(1) Mae Rheoliadau Mabwysiadau ag Elfen Dramor 2005(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 13 (gofynion sy'n gymwys mewn cysylltiad â chymhwystra ac addasrwydd)—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) A couple or a person who wishes to adopt a child habitually resident in a Convention country outside the British Islands must notify the agency that they want to adopt a child, and give the agency any information it may require for the purposes of the pre-assessment process set out in Part 4 of the Agencies Regulations or corresponding Welsh provision.”;

(b) ym mharagraff (2)—

(i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle'r geiriau o “in Wales” i “(as the case may be)” rhodder—

“may not proceed with the pre-assessment process referred to in paragraph (1), unless at the date of that notification—”, a

(ii) yn is-baragraffau (a) a (b), yn lle “an application”, ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder “a notification” ac yn lle “date of application”, ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder “date of notification”.

(3) Yn rheoliad 15 (gweithdrefn mewn cysylltiad â chynnal asesiad), ym mharagraff (1), ar ôl “Part 4 of the Agencies Regulations” mewnosoder “or corresponding Welsh provision”.

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Rhagnodedig) (Mabwysiadu gydag Elfen Dramor) (Cymru) 2005

2. Yn rheoliad 3 (pŵer i godi am gyfleusterau sy'n cael eu darparu sy'n ymwneud â mabwysiadu gydag elfen dramor) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Rhagnodedig) (Mabwysiadu gydag Elfen Dramor)

(1) O.S. 2005/392 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/985. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Consequential Amendments to Other Regulations

Adoptions with a Foreign Element Regulations 2005

1.—(1) The Adoptions with a Foreign Element Regulations 2005(1) are amended as follows.

(2) In regulation 13 (requirements applicable in respect of eligibility and suitability)—

(a) for paragraph (1) substitute—

“(1) A couple or a person who wishes to adopt a child habitually resident in a Convention country outside the British Islands must notify the agency that they want to adopt a child, and give the agency any information it may require for the purposes of the pre-assessment process set out in Part 4 of the Agencies Regulations or corresponding Welsh provision.”;

(b) in paragraph (2)—

(i) in the words before sub-paragraph (a), for the words from “in Wales” to “(as the case may be)” substitute—

“may not proceed with the pre-assessment process referred to in paragraph (1), unless at the date of that notification—”, and

(ii) in sub-paragraphs (a) and (b), for “an application”, in each place where it occurs, substitute “a notification” and for “date of application”, in each place where it occurs, substitute “date of notification”.

(3) In regulation 15 (procedure in respect of carrying out an assessment), in paragraph (1), after “Part 4 of the Agencies Regulations” insert “or corresponding Welsh provision”.

Local Authorities (Prescribed Fees) (Adoptions with a Foreign Element) (Wales) Regulations 2005

2. In regulation 3 (power to charge for facilities provided in connection with adoptions with a foreign element) of the Local Authorities (Prescribed Fees) (Adoptions with a Foreign Element) (Wales)

(1) S.I. 2005/392, amended by S.I. 2013/985. There are other amendments not relevant to these Regulations.

(Cymru) 2005(1), ym mharagraff (5)(b)(ii), yn lle “rheoliad 28” rhodder “rheoliad 30B”.

Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau’n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010

3.—(1) Mae Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau’n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y diffiniad o “adroddiad darpar fabwysiadudd”, yn lle “rheoliad 26” rhodder “rheoliad 30”.

(3) Yn rheoliad 3(a) (penderfyniad cymhwysol – disgrifiad penodedig at ddibenion adran 12(2) o Ddeddf 2002)—

- (a) yn is-baragraff (i), yn lle “rheoliad 28(4)” rhodder “rheoliad 30B(5)”, a
- (b) yn is-baragraff (ii), yn lle “reoliad 30” rhodder “reoliad 30CH(2)”.

(4) Yn rheoliad 12 (swyddogaethau panel a gyfansoddwyd i adolygu penderfyniad ar addasrwydd i fabwysiadu)—

- (a) ym mharagraff (2)(b)(i), yn lle “rheoliad 26(4), a phan fo’n gymwys, rheoliad 26(5)” rhodder “rheoliad 30(2), a phan fo’n gymwys, reoliad 30(3)”,
- (b) ym mharagraff (3), yn lle “reoliad 26(4), a phan fo’n gymwys, rheoliad 26(5)” rhodder “reoliad 30(2), a phan fo’n gymwys, rheoliad 30(3)”,
- (c) ym mharagraff (4), yn lle “rheoliad 26(4), a phan fo’n gymwys rheoliad 26(5), o’r Rheoliadau Asiantaethau yn cynnwys yr holl wybodaeth a oedd yn ofynnol gan reoliad 26(4) neu, os yw’n gymwys, rheoliad 26(5)” rhodder “rheoliad 30(4) o’r Rheoliadau Asiantaethau yn cynnwys yr holl wybodaeth a oedd yn ofynnol gan reoliad 30(2), a phan fo’n gymwys, rheoliad 30(3)”, a
- (d) ym mharagraff (5)(a), yn lle “rheoliad 29” rhodder “rheoliad 30C”.

Regulations 2005(1), in paragraph (5)(b)(ii), for “regulation 28” substitute “regulation 30B”.

Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) Regulations 2010

3.—(1) The Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) Regulations 2010(2) are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation), in the definition of “prospective adopter’s report”, for “regulation 26” substitute “regulation 30”.

(3) In regulation 3(a) (qualifying determination – prescribed description for the purposes of section 12(2) of the 2002 Act)—

- (a) in sub-paragraph (i), for “regulation 28(4)” substitute “regulation 30B(5)”, and
- (b) in sub-paragraph (ii), for “regulation 30” substitute “regulation 30D(2)”.

(4) In regulation 12 (functions of panel constituted to review an adoption suitability determination)—

- (a) in paragraph (2)(b)(i), for “regulation 26(4) and, where applicable, regulation 26(5)” substitute “regulation 30(2) and, where applicable, regulation 30(3)”,
- (b) in paragraph (3), for “regulation 26(4) and, where applicable, regulation 26(5)” substitute “regulation 30(2) and, where applicable, regulation 30(3)”,
- (c) in paragraph (4), for “regulation 26(4) and, where applicable, regulation 26(5) of the Agencies Regulations, did not include all of the information required by regulation 26(4) or, where applicable, regulation 26(5)” substitute “regulation 30(4) of the Agencies Regulations, did not include all of the information required by regulation 30(2) and, where applicable, regulation 30(3)”, and
- (d) in paragraph (5)(a), for “regulation 29” substitute “regulation 30C”.

(1) O.S. 2005/3114 (Cy. 234).

(2) O.S. 2010/746 (Cy. 75), a ddiwygiwyd gan O.S. 2012/1479, O.S. 2016/211 (Cy. 84), O.S. 2017/52 (Cy. 23) ac O.S. 2019/237 (Cy. 56).

(1) S.I. 2005/3114 (W. 234).

(2) S.I. 2010/746 (W. 75), amended by S.I. 2012/1479, S.I. 2016/211 (W. 84), S.I. 2017/52 (W. 23) and S.I. 2019/237 (W. 56).

Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014

4. Yn rheoliad 9 (swyddogaethau penodedig o dan Ddeddf 2002) o Reoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014(1), ar ôl paragraff (1)(f)(i) mewnosoder—

“(ia) Rhan 4 (dyletswyddau asiantaeth fabwysiadu o ran darpar fabwysiadydd) i’r graddau y mae’r swyddogaethau hynny’n ymwneud â phenderfyniad o dan reoliad 27 (penderfyniad cyn asesu) nad yw darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn;”.

The Representations Procedure (Wales) Regulations 2014

4. In regulation 9 (specified functions under the 2002 Act) of the Representations Procedure (Wales) Regulations 2014(1), after paragraph (1)(f)(i) insert—

“(ia) Part 4 (duties of adoption agency in respect of a prospective adopter) in so far as those functions relate to a decision under regulation 27 (pre-assessment decision) that a prospective adopter is not suitable to adopt a child;”.

(1) O.S. 2014/1795 (Cy. 188), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/211 (Cy. 84). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(1) S.I. 2014/1795 (W. 188), amended by S.I. 2016/211 (W. 84). There are other amendments not relevant to these Regulations.

Diwygiadau Amrywiol i'r Prif Reoliadau

Diwygiadau i'r Prif Reoliadau

1. Mae testun Cymraeg y Prif Reoliadau wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

2. Yn rheoliad 2 (dehongli), ar ôl y diffiniad o "Deddf 1989" mewnosoder—

"ystyr "Deddf 2008" ("*the 2008 Act*") yw Deddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 2008(1);".

3. Yn rheoliad 14 (gofyniad i ddarparu cwnsela etc.)—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan nad oes gan dad y plentyn neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008 gyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac mae'r asiantaeth fabwysiadu yn gwybod pwy yw'r person hwnnw.", a

(b) ym mharagraff (3)—

(i) ar ôl "tad", ym mhob lle y mae'n digwydd, mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008",

(ii) yn is-baragraff (b)(i), yn lle "adran 4" rhodder "adran 4 neu 4ZA", a

(iii) yn is-baragraff (b)(ii)—

(aa) yn lle "preswyllo neu orchymyn cyswllt" rhodder "trefniadau plentyn", a

(bb) yn lle "preswyllo, cyswllt" rhodder "gorchmynion trefniadau plentyn".

4. Yn rheoliad 17(1)(ch), (d) ac (e) (gofyniad i baratoi adroddiad ysgrifenedig), ar ôl "tad y plentyn" ac "ei dad" mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008".

5. Yn rheoliad 19(3) (penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu)—

(a) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) unrhyw berthynas neu berson arwyddocaol arall yr ymgynghorodd yr

Miscellaneous Amendments to the Principal Regulations

Amendments to the Principal Regulations

1. The Welsh language text of the Principal Regulations is amended as follows.

2. In regulation 2 (interpretation), after the definition of "Deddf 1989" insert—

"ystyr "Deddf 2008" ("*the 2008 Act*") yw Deddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 2008(1);".

3. In regulation 14 (requirement to provide counselling etc.)—

(a) for paragraph (2) substitute—

"(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan nad oes gan dad y plentyn neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008 gyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac mae'r asiantaeth fabwysiadu yn gwybod pwy yw'r person hwnnw.", and

(b) in paragraph (3)—

(i) after "tad", in each place it occurs, insert "neu'r fenyw sy'n rhiant yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008",

(ii) in sub-paragraph (b)(i), for "adran 4" substitute "adran 4 neu 4ZA", and

(iii) in sub-paragraph (b)(ii)—

(aa) for "preswyllo neu orchymyn cyswllt" substitute "trefniadau plentyn", and

(bb) for "preswyllo, cyswllt" substitute "gorchmynion trefniadau plentyn".

4. In regulation 17(1)(ch), (d) and (e) (requirement to prepare written report), after "tad y plentyn" and "ei dad" insert "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008".

5. In regulation 19(3) (adoption agency decision and notification)—

(a) for sub-paragraph (b) substitute—

"(b) unrhyw berthynas neu berson arwyddocaol arall yr ymgynghorodd yr

asiantaeth ag ef o dan reoliad 14(1) gan gynnwys—

- (i) unrhyw berson a enwir mewn gorchymyn trefniadau plentyn o dan adran 8 o Ddeddf 1989, fel person y mae'r plentyn i dreulio amser gydag ef neu i gael cyswllt ag ef fel arall, neu
- (ii) unrhyw berson y mae gorchymyn o dan adran 34 o Ddeddf 1989 (cyswllt rhiant â phlant mewn gofal) wedi ei wneud o'i blaid,

pan fo'r gorchymyn hwnnw mewn grym yn union cyn yr awdurdodir yr asiantaeth i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu;”;

- (b) yn is-baragraff (c), ar ôl “tad y plentyn” mewnosoder “neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008”.

6. Yn rheoliad 34(4)(b) (penderfyniad yr asiantaeth fabwysiadu o ran y lleoliad arfaethedig), ar ôl “tad y plentyn,” mewnosoder “neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008,”.

7. Yn rheoliad 39(2)(b) (tynnu cydsyniad yn ôl), ar ôl “tad y plentyn” mewnosoder “neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008”.

8. Ym mharagraffau 13(a)(i) a 14 o Ran 1 o Atodlen 1 (gwybodaeth am y plentyn), ar ôl “ei dad” mewnosoder “neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008”.

9. Yn Rhan 3 o Atodlen 1 (gwybodaeth am deulu'r plentyn ac eraill)—

- (a) yn y pennawd o flaen paragraff 1, ar ôl “am y plentyn” mewnosoder “neu fenyw sy'n rhiant yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008 nad oes ganddi gyfrifoldeb rhiant am y plentyn”,
- (b) yn lle paragraff 16 rhodder—

“**16.** Os nad yw rhieni'r plentyn yn briod neu'n bartïon mewn partneriaeth sifil, a oes gan y tad neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008 gyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac os felly, sut y cafwyd ef.”,

asiantaeth ag ef o dan reoliad 14(1) gan gynnwys—

- (i) unrhyw berson a enwir mewn gorchymyn trefniadau plentyn o dan adran 8 o Ddeddf 1989, fel person y mae'r plentyn i dreulio amser gydag ef neu i gael cyswllt ag ef fel arall, neu
- (ii) unrhyw berson y mae gorchymyn o dan adran 34 o Ddeddf 1989 (cyswllt rhiant â phlant mewn gofal) wedi ei wneud o'i blaid,

pan fo'r gorchymyn hwnnw mewn grym yn union cyn yr awdurdodir yr asiantaeth i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu;”;

- (b) in sub-paragraph (c), after “tad y plentyn” insert “neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008”.

6. In regulation 34(4)(b) (adoption agency's decision in relation to the proposed placement), after “tad y plentyn,” insert “neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008,”.

7. In regulation 39(2)(b) (withdrawal of consent), after “tad y plentyn” insert “neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008”.

8. In paragraphs 13(a)(i) and 14 of Part 1 of Schedule 1 (information about the child), after “ei dad” insert “neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008”.

9. In Part 3 of Schedule 1 (information about the child's family and others)—

- (a) in the heading before paragraph 1, after “am y plentyn” insert “neu fenyw sy'n rhiant yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008 nad oes ganddi gyfrifoldeb rhiant am y plentyn”,
- (b) for paragraph 16 substitute—

“**16.** Os nad yw rhieni'r plentyn yn briod neu'n bartïon mewn partneriaeth sifil, a oes gan y tad neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008 gyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac os felly, sut y cafwyd ef.”,

(c) yn lle paragraff 17 rhodder—

“17. Os na wyddys pwy yw tad y plentyn neu ble y mae, neu pwy yw’r fenyw sy’n rhiant i’r plentyn yn rhinwedd adran 42 neu 43 o Ddeddf 2008 neu ble y mae, yr wybodaeth amdano neu amdani sy’n hysbys a phwy a’i rhoes, a’r camau a gymerwyd i ddarganfod pwy yw’r rhiant.”

(d) yn y pennawd o flaen paragraff 24, ar ôl “tad” mewnosoder “neu’r fenyw sy’n rhiant i’r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008”, ac

(e) ym mharagraff 27, ar ôl “thad y plentyn” mewnosoder “neu’r fenyw sy’n rhiant i’r plentyn yn rhinwedd adran 42 neu 43 o Ddeddf 2008”.

(c) for paragraph 17 substitute—

“17. Os na wyddys pwy yw tad y plentyn neu ble y mae, neu pwy yw’r fenyw sy’n rhiant i’r plentyn yn rhinwedd adran 42 neu 43 o Ddeddf 2008 neu ble y mae, yr wybodaeth amdano neu amdani sy’n hysbys a phwy a’i rhoes, a’r camau a gymerwyd i ddarganfod pwy yw’r rhiant.”

(d) in the heading before paragraph 24, after “tad” insert “neu’r fenyw sy’n rhiant i’r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008”, and

(e) in paragraph 27, after “thad y plentyn” insert mewnosoder “neu’r fenyw sy’n rhiant i’r plentyn yn rhinwedd adran 42 neu 43 o Ddeddf 2008”.

©©Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

